

# Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,  
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA  
[ceredigion.gov.uk](http://ceredigion.gov.uk)

Dydd Llun, 12 Rhagfyr 2022

## **Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol yn Hybrid/ Siambr y Cyngor - Penmorfa, Dydd Llun, 19 Rhagfyr 2022 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**
- 3. Adroddiad ynghylch Adroddiad Ystadegol Uwch Grwner Ceredigion ar gyfer 2021 (Tudalennau 3 - 16)**
- 4. Adroddiad parthed prynu maes parcio yn Aberteifi (Tudalennau 17 - 22)**
- 5. Grwp Datblygu a Grwpiau Ategol Eraill (Tudalennau 23 - 106)**
- 6. Siarter Gwasanaethau Cwsmeriaid (Tudalennau 107 - 112)**
- 7. Blaenraglen Waith (Tudalennau 113 - 118)**
- 8. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion. (Tudalennau 119 - 124)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'L Edwards'.

**Miss Lowri Edwards**

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol  
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	<b>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>19 Rhagfyr 2022</b>
<b>LLEOLIAD:</b>	<b>Hybrid</b>
<b>TEITL:</b>	<b>Adroddiad ynghylch Adroddiad Ystadegol Uwch Grwner Ceredigion ar gyfer 2021</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	<b>Er gwybodaeth – rhoi cyfle i'r Pwyllgor adolygu'r wybodaeth a geir yn Adroddiad Ystadegol yr Uwch Grwner ar gyfer 2021.</b>
<b>RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:</b>	<b>Heb ofyn amdano</b>
<b>CEFNDIR:</b>	

Mae Uwch Grwner Ceredigion yn paratoi adroddiad blynyddol ar y marwolaethau a adroddir i'r Crwner ('Adroddiad Ystadegol') ac yn ei anfon at y Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn ei gyhoeddi fel rhan o Ystadegau'r Crwner ar wefan Llywodraeth y DU (mae ystadegau 2021 ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/statistics/coroners-statistics-2021>)

Mae Adroddiad y Prif Grwner i'r Arglwydd Ganghellor (Adroddiad sy'n cynnwys y Chweched Adroddiad Blynyddol 2018-2019 a'r Seithfed Adroddiad Blynyddol 2019-2020) (i'w weld yma: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/932518/chief-coroner\\_s-annual-report-1920.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/932518/chief-coroner_s-annual-report-1920.pdf)) ac mae'n cynnwys Glasbrint Model y Crwner. Mae'n argymhell y dylai'r Uwch Grwner gyflwyno hefyd adroddiad blynyddol byr ('Adroddiad Awdurdod Lleol') i'r Prif Grwner a'r Cyngor bob mis Gorffennaf ac y dylid ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor gan hefyd gynnwys yr ystadegau perthnasol ar yr achosion cyfredol/ achosion sydd wedi cau (gyda ffigurau i gymharu â blynyddoedd blaenorol), diweddariad ar waith y Crwner a materion perthnasol, crynodeb am dîm y Crwner a'r trefniadau staffio, ac unrhyw gynlluniau at y dyfodol. Ni wnaeth yr Uwch Grwner gyflwyno'r adroddiad yma i'r Cyngor ar gyfer y llynedd a hynny oherwydd llwyth gwaith, galwadau i eistedd yn y llys, a swydd wag ymhlith y staff.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor hwn ar 14 Hydref 2021, penderfynwyd y dylai'r Adroddiad Ystadegol gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn flynyddol, ar ôl i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gyhoeddi adroddiad ar yr Ystadegau Cenedlaethol (mae adroddiad a chofnodion cyfarfod 14/10/21 ar gael yma: <https://cyngor.ceredigion.gov.uk/documents/s2079/Eitem%20-%20Crwner.pdf?LLL=1>)

Gofynnwyd i Swyddfa'r Crwner am ddiweddariad o ran pa bryd y bydd Adroddiad yr Uwch Grwner i'r Awdurdod Lleol eleni yn cael ei ddarparu ond nid yw'r adroddiad wedi dod i law.

# Tudalen 4

## Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Cafodd yr Adroddiad Ystadegol ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar 12 Gorffennaf 2022, ar ôl i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gyhoeddi'r adroddiad ar yr Ystadegau Cenedlaethol. Cyflwynir yr adroddiad i'r pwyllgor er gwybodaeth (**Atodiad 1**). Dylai'r Pwyllgor hefyd nodi fod gwybodaeth bersonol sensitif wedi ei thynnu allan o'r Adroddiad Ystadegol.

Cafwyd diweddariad gan Swyddfa'r Crwner am eu gwaith nhw ar roi organau:

"Bu i Mr Steve Lloyd, Swyddfa'r Crwner yn Heddlu Dyfed-Powys, drefnu bod nifer o organau yn cael eu rhoi gan weithio gyda Nyrsys Arbenigol Cymru mewn Rhoi Organau a Mr Jason Shannon, Archwilydd Meddygol Arweiniol cyntaf Cymru. Roedd ymdrechion eithriadol ac arbenigedd Mr Lloyd wedi arwain at arbed nifer o fywydau gan gynnwys baban wyth mis oed. Mae'r profiad a'r dealltwriaeth a gafwyd o'r digwyddiad diweddar yma yn rhoi sylfaen dda i grwneriaid Ceredigion ar gyfer cael cyfleoedd yn y dyfodol i hwyluso rhoi organau ac arbed bywydau."

Bydd 'adroddiad Awdurdod Lleol' yr Uwch Grwner yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar y cyfle cyntaf ar ôl ei dderbyn oddi wrth Swyddfa'r Crwner.

## LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:

**Oes Aseiad Effaith Integredig** Nac oes  
**wedi ei gwblhau? Os na,**  
**esboniwch pam** Nid yw'r adroddiad  
hwn yn newid polisi na strategaeth.  
**Crynodeb:**  
**Hirdymor:**  
**Integreiddio:**  
**Cydweithio:**  
**Cynnwys:**  
**Atal:**

## ARGYMHELLIAD:

Bod y Pwyllgor yn:

1. Nodi cynnwys Adroddiad Ystadegol 2021 Uwch Grwner Ceredigion

## RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLIAD:

I fonitro'r wybodaeth flynyddol sy'n ymwneud â'r marwolaethau a adroddir i Uwch Grwner Ceredigion.

<b>Atodiadau:</b>	<b>Atodiad 1</b> – Adroddiad Ystadegol 2021 Uwch Grwner Ceredigion
<b>Enw Cyswllt:</b>	Elin Prysor
<b>Swydd:</b>	Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a'r Swyddog Monitro)
<b>Dyddiad yr Adroddiad:</b>	21/11/22
<b>Acronymau:</b>	Ddim yn berthnasol

# MARWOLAETHAU A ADRODDWYD I GRWNERIAID

IONAWR – RHAGFYR 2021

## DARLLENWCH Y NODIADAU HYN YN OFALUS CYN LLENWI'R FFURFLEN

Llanwch a dychwelwch y daenlen hon erbyn 1 Mawrth 2022 i:

Matteo Chiesa

[Coroners>Returns@justice.gov.uk](mailto:Coroners>Returns@justice.gov.uk)

Os oes gennych unrhyw broblemau yn ymwneud â llenwi'r daenlen hon, edrychwch ar y daflen waith "Cyfarwyddiadau", neu cysylltwch â Matteo Chiesa yn [Coroners>Returns@justice.gov.uk](mailto:Coroners>Returns@justice.gov.uk) neu gallwch ffonio 07967 595014

## RHOWCH FANYLION YMA AR ÔL LLENWI'R FFURFLEN

<b>ENW:</b> <input type="text" value="Stephen Lloyd"/>	<b>CYFEIRIAD:</b> <input type="text" value="Gorsaf yr Heddlu&lt;br/&gt;Aberystwyth&lt;br/&gt;Ceredigion&lt;br/&gt;SY23 1PH"/>
<b>DYDDIAD:</b> <input type="text" value="23ain Chwefror 2022"/>	<b>CYFEIRIAD E-BOST</b> <input type="text" value="Steve.lloyd@dyfed-powys.police.uk"/>
<b>FFÔN</b> <input type="text" value="07966 648 812"/>	
<b>DARPARWR MEDDALWEDD</b> (Dewiswch o'r gwymplen) <input type="text"/> ↓	<b>MANYLION PELLACH – DARPARWR ARALL:</b> <input type="text" value="Dewiswch y darparwr meddalwedd o'r gwymplen"/> <input type="text" value="XXXXXXXXXXXXXXXXXXXX"/>
<p>Dychwelwch y daenlen wedi'i llenwi erbyn 1 Mawrth 2022 i:</p> <p>Matteo Chiesa <a href="mailto:Coroners&gt;Returns@justice.gov.uk">Coroners&gt;Returns@justice.gov.uk</a></p>	

Diolch yn fawr

**MARWOLAETHAU A ADRODDWYD I GRWNERIAID**

Ionawr i Rhagfyr 2021

**ENW LLAWN ARDAL Y CRWNER****CEREDIGION**

*DARLLENWCH Y NODIADAU YN OFALUS CYN DECHRAU LLENWI  
A DARLLENWCH Y CRYNODEB GWIRIO CYN ANFON*

**RHAN A: Gwaith Achos Newydd****RHAN A: MARWOLAETHAU A ADRODDWYD I GRWNER YN 2021**

	Gyda post-mortem			Heb post-mortem			CYFANSWM		
	Gwryw	Benyw	Cyfan- swm	Gwryw	Benyw	Cyfan- swm	Gwryw	Benyw	Cyfan swm
(i) Marwolaethau a adroddwyd i'r crwner na fydd yn arwain at gwest (boed tystysgrif o unrhyw fath wedi'i rhoi ai peidio)	73	43	116	78	72	150	151	115	266
(ii) Marwolaethau a adroddwyd i grwneriaid y mae cwestau i'w hagog arnynt neu wedi'u hagog (hyd yn oed os nad ydynt wedi'u cwblhau)	13	2	15	0	0	0	13	2	15
(iii) Marwolaethau a adroddwyd i grwneriaid y mae cwestau'n destun ymchwiliad iddynt ac nid yw'n hysbys eto a fydd cwest yn cael ei agor	7	5	12	0	0	0	7	5	12
<b>CYFANSWM: (i) + (ii) + (iii)</b>	<b>93</b>	<b>50</b>	<b>143</b>	<b>78</b>	<b>72</b>	<b>150</b>	<b>171</b>	<b>122</b>	<b>293</b>
(iv) Nifer yr achosion a drosglwyddwyd y tu allan i'r ardal o dan Ran 2 neu 3 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (nid yw'r rhain i'w cynnwys uchod, hyd yn oed os ydynt yn cynnwys post-mortem cyn trosglwyddo)									<b>0</b>
(v) RHAID CYNNWYS marwolaethau a adroddwyd neu a atgyfeiriwyd i'r crwner nad ydynt angen cwest neu dystysgrif yn y blwch "DIM CWEST DIM POST-MORTEM" uchod, ynghyd ag achosion lle rhoddwyd tystysgrifau. <u>Ar gyfer achosion lle na wyddys rhyw y sawl a fu farw, nodwch nifer yr achosion hyn yn y gell felen ar y dde</u>									<b>0</b>

**ARCHWILIADAU POST-MORTEM – PEIDIWCH** â chynnwys achosion a drosglwyddwyd maes o law allan o'r ardal (os cafwyd mwy nag un post-mortem ar yr un corff, dylid rhoi manylion am y **POST-MORTEM CYNTAF** yn unig yn y rhan hon)

Nifer a orchynnwyd ar y GYFRADD SAFONOL	<b>141</b>
Nifer a orchynnwyd ar y GYFRADD ANSAFONOL	<b>2</b>
<b>Nifer y PMau a oedd yn cynnwys HISTOLEG</b>	<b>9</b>
Nifer y PMau a oedd yn cynnwys TOCSICOLEG	<b>25</b>
Nifer y PMau a gynhaliwyd yn defnyddio Archwiliad Allanol, Delweddu, Prawf ar Samplau – (Tocsicoleg/Histoleg os nad oedd yn rhan o Awtopsi)	<b>0</b>

## Tudalen 7

Nifer y PMau a gynhaliwyd nad oedd yn cynnwys Awtopsi	<b>0</b>
Nifer y PMau a gynhaliwyd gan batholegydd fforensig y Swyddfa Gartref	<b>2</b>
Nifer yr ail PMau a gynhaliwyd yn dilyn cais gan gyfreithiwr amddiffyn	<b>0</b>
<b>Sylwer: nid oes angen i chi gofnodi unrhyw fanylion pellach yma am unrhyw ail PM neu un dilynol a orchynnwyd ar yr un corff</b>	
Nifer y gorchmynion symud tu allan i Gymru a Lloegr	<b>0</b>
Nifer y marwolaethau dramor (rhowch fanylion ar dudalen ar wahân)	<b>0</b>

**Ar gyfer marwolaethau yn nalfa'r wladwriaeth (neu o fewn saith diwrnod ar ôl eu rhyddhau o Ddalfa'r Wladwriaeth) a adroddwyd i'r crwner yn 2021,**

**Rhowch nifer yr achosion newydd ym mhob un o'r diffiniadau canlynol:**

**(i gael manylion pellach, os oes angen, gweler y daflen "diffiniadau yn Nalfa'r Wladwriaeth" / "State Detention definitions")**

1. Mewn carchar	<b>0</b>
2. Yn nalfa'r Heddlu	<b>0</b>
3. Canolfannau Symud Mewnfudwyr	<b>0</b>
4. Cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl	<b>0</b>
5. Preswylwyr Safleoedd Cymeradwy'r Gwasanaeth Prawf	<b>0</b>
6. Canolfan hyfforddi ddiogel	<b>0</b>
7. Cartrefi diogel awdurdodau lleol i blant	<b>0</b>
8. Rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL)	<b>0</b>
9. Rhyddhau o ddalfa'r wladwriaeth o fewn y saith diwrnod blaenorol	<b>0</b>
<b>CYFANSWM</b>	<b>0</b>

Sylwer. Bydd y data hwn yn cael ei gadarnhau â Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy. Gwiriwch y ffigurau gan y bydd unrhyw anghysondebau yn achosi oedi wrth brosesu eich ffurflen.

### **RHAN B, C a D: Gwaith achos a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn**

<b>RHAN B: CASGLIADAU Y DAETHPWYD IDDYNT A GOFNODWYD MEWN CWESTAU YN 2021 (gan gynnwys cwestau gyda rheithgor)</b>			
	Nifer y casgliadau y daethpwyd iddynt (nid cwestau trysor)		
	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
Lladdwyd yn anghyfreithlon	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Lladdwyd yn gyfreithlon	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Hunanladdiad	<b>9</b>	<b>1</b>	<b>10</b>
Ymgais i erthylu neu ysgogi erthylid	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Achos marwolaeth wedi'i waethygu gan ddiffyg gofal neu hunanesgeulustod	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Yn gysylltiedig ag Alcohol/Cyffuriau	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Gwrthdrawiad traffig ffyrdd	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Diffyg sylw ar enedigaeth	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Marwolaethau o glefydau diwydiannol	<b>1</b>	<b>0</b>	<b>1</b>
Marwolaethau drwy ddamwain neu anffawd	<b>4</b>	<b>1</b>	<b>5</b>
Marw-enedigaeth	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Marwolaethau o achosion naturiol	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Agored	<b>1</b>	<b>0</b>	<b>1</b>

## Tudalen 8

Trychinebau (lle'r oedd cwest wedi ailddechrau ar ôl addasu o dan Atodlen1 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009)	0	0	0
Annosbarthedig (gan gynnwys casgliadau naratif)	0	0	0
CYFANSWM (yr holl gasgliadau y daethpwyd iddynt)	15	2	17
<b>OEDRAN Y SAWL A FU FARW MEWN CASGLIADAU CWEST:</b>			
Nifer y casgliadau y daethpwyd iddynt mewn cwestau yn 2021 pan oedd oedran yr ymadawedig ar adeg ei farwolaeth:			
O dan 1 oed	0		
1 i 14 oed	0		
15 i 24 oed	2		
25 i 44 oed	4		
45 i 64 oed	4		
65 oed a throsodd	7		
Ni wyddys yr oedran	0		

RHAN C: YMCHWILIADAU WEDI'U GOHIRIO o dan Atodlen 1, Paragraffau 1, 2, 3 a 5 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 pan benderfynwyd PEIDIO AG AILDDECHRAU YN YSTOD 2021					
	Yr isadran y daw'r Gohirio oddi tano (o dan reoliadau agos)				
	Atodlen1 Para.1	Atodlen1 Para.2	Atodlen1 Para.3	Atodlen1 Para.5	C
Llofruddiaeth	0	1	0	0	1
Dynladdiad	0	0	0	0	0
Babanladdiad	0	0	0	0	0
Cyhuddiadau o achosi marwolaeth yn groes i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1968	0	1	0	0	1
Cynorthwyo, annog, cwnsela neu ysgogi hunanladdiad	0	0	0	0	0
Dynladdiad corfforaethol	0	0	0	0	0
Cyhuddiadau troseddol eraill	0	0	0	0	0
Ymchwiliad o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005 (dim cyhuddiad)			0		0
Pŵer cyffredinol i ohirio (dim cyhuddiad)				0	0
CYFANSWM	0	2	0	0	2

Rhan D (X): CWESTAU yn 2021			
	Gyda rheithgor	Heb reithgor	CYFANSWM
Nifer y cwestau (ac eithrio trysor)	0	19	19
O'r rhain: cwestau wedi'u cynnal drwy orchymyn yr Uchel Lys			0
Cwestau wedi'u dileu neu eu haddasu gan yr Uchel Lys			0
Rhan D (X): DATGLADDIADAU yn 2021			
Nifer y datgladdiadau a orchynnwyd o dan Atodlen 5 para.6 Deddf Crwneriaid 2009			0
Rhan D (X): DARGANFYDDIADAU TRYSOR yn 2021			
Nifer y darganfyddiadau a adroddwyd o dan DDEDDF TRYSOR 1996			0
Nifer y cwestau a gwblhawyd (gweler y nodyn isod)			0
O'r rhain: Nifer y casgliadau bod trysor			0
Nifer y cwestau ar Drysor cudd (dim ond cwestau ar ddarganfyddiadau a wnaed cyn 24 Medi 1997 y dylid eu hadrodd yma)			0



**Adran D (X): ADRODDIADAU A GYHOEDDWDYD YN 2021 YNGHYLCH ATAL MARWOLAETHAU YN Y DYFODOL**

Nifer yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2021 ynghylch atal marwolaethau yn y dyfodol (beth bynnag oedd dyddiad cau'r cwest)

1

**Nodiadau**

1. Rhaid i nifer y cwestau i drysor y daethpwyd i gasgliad amdanynt yn ystod 2021 fod yn fwy neu'n hafal i nifer y dyfarniadau am Drysor a gofnodwyd yn y blwch oddi tano.

Atodlen1, Para.1: gellir cyflwyno cyhuddiadau troseddol/gwasanaeth

Atodlen1, Para.2: cyflwynwyd cyhuddiadau troseddol/gwasanaeth

Atodlen1, Para.3: ymchwiliad o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005

Atodlen1, Para.5: wedi'i ohirio am resymau eraill

**RHAN E: AMSER A DREULIWDYD AR ACHOSION****1. Marwolaethau yr ymchwiliwyd iddynt yn 2021 pan na chafwyd cwest h.y. marwolaethau a adroddwyd yn rhan A (i) (rhes uchaf + 'ni wyddys y rhyw')**

Nifer yr achosion a adroddwyd yn rhan A (i) y rhoddwyd tystysgrifau iddynt o fewn:

Un wythnos neu lai		197
Dros wythnos a hyd at un mis calendr	+	33
Dros un mis calendr <sup>1</sup>	+	36
Yr holl farwolaethau yr ymchwiliwyd iddynt lle rhoddwyd tystysgrif, ond ni wyddys eto a fydd cwest	<b>Is-gyfanswm</b>	<b>266</b>
Ni roddwyd tystysgrif (yn rhan A bydd y rhain wedi'u cynnwys yn y rhan "dim cwest, dim PM" o A (i)) +	+	0
Yr holl farwolaethau a adroddwyd yn 2021 lle na chafwyd cwest, h.y. Rhan A (i) + achosion lle nad oedd y rhyw yn hysbys	=	266

**2. Marwolaethau yn 2021 y mae cwestau i'w hagor arnynt neu sydd wedi cael eu hagor (hyd yn oed os na ddaethpwyd i gasgliad arnynt eto) h.y. yr holl farwolaethau a adroddwyd yn Rhan A (II)**

Nifer yr achosion a adroddwyd yn rhan A (ii) y rhoddwyd tystysgrifau gwaredu o fewn:

Marwolaethau yng Nghymru a Lloegr	Un wythnos neu lai		4
	Dros wythnos a hyd at un mis calendr	+	9
	Dros un mis calendr <sup>1</sup>	+	2
	CYFANSWM ACHOSION – Cymru a Lloegr	<b>Is-gyfanswm</b>	<b>15</b>
Marwolaethau rywle arall	CYFANSWM ACHOSION – Man arall	+	0
Yr holl farwolaethau yn 2021 y mae cwestau i'w hagor arnynt neu sydd wedi cael eu hagor h.y. Rhan A (II).	=	15	

**3. Marwolaethau yr ymchwiliwyd iddynt yn 2021 lle nad yw'n hysbys eto a fydd cwest h.y. marwolaethau a adroddwyd yn rhan A (III)**

**Sylwer, dylai hwn fod yn giplun o'r ymchwiliadau sydd yn agored ar ddiwedd 2021**

Nifer yr achosion a adroddwyd yn rhan A (III) y rhoddwyd tystysgrifau iddynt o fewn:

Un wythnos neu lai		7
Dros wythnos a hyd at un mis calendr	+	4
Dros un mis calendr <sup>1</sup>	+	1
Yr holl farwolaethau lle rhoddwyd tystysgrif, ond na wyddys eto a gynhelir cwest ai peidio	<b>Is-gyfanswm</b>	<b>12</b>

## Tudalen 10

Dim tystysgrif wedi'i rhoi (yn rhan A bydd y rhain wedi'u cynnwys yn y rhan *dim PM* yn A (III))	+	<b>0</b>
Yr holl farwolaethau a adroddwyd yn 2021 na wyddys eto a fydd cwest ai peidio h.y. Rhan A (iii)	=	<b>12</b>

#### 4. Marwolaethau yr oedd cwestau yn 2021: (a) wedi dod i gasgliad amdanynt neu (b) heb eu hailddechrau yn dilyn eu gohirio o dan Atodlen 1, Paragraffau 1, 2, 3 neu 5 (h.y. yr holl gasgliadau yn rhan B yn ogystal â'r holl gyhuddiadau yn rhan C)

Nifer yr achosion lle daeth y cwest i gasgliad, neu lle gohiriwyd y cwest o dan Atodlen 1, Paragraff 1, 2, 3 neu 5 o fewn:

<u>Marwolaethau yng Nghymru a Lloegr</u>	Un mis neu lai <sup>2</sup>		<b>0</b>
	Un i dri mis <sup>2</sup>		<b>2</b>
	Tri i chwe mis <sup>2</sup>		<b>6</b>
	Chwech i ddeuddeg mis <sup>2</sup>		<b>7</b>
	Dros ddeuddeg mis <sup>2</sup>		<b>4</b>
	CYFANSWM ACHOSION – Cymru a Lloegr		<b>19</b>
Marwolaethau rywle arall	CYFANSWM ACHOSION – Man arall	+	<b>0</b>
Yr holl farwolaethau y cynhaliwyd cwest iddynt yn 2021 h.y. cyfanswm Rhan B a C		=	<b>19</b>

#### 5. Cwestau yn dal yn agored neu ar y gweill ar ddiwedd 2021 (h.y. heb ddod i gasgliad, nac wedi'u gohirio o dan Atodlen 1, Paragraffau 1, 2, 3 neu 5)

Nodwch nifer y cwestau ar y gweill am y cyfnodau amser canlynol:

	Marwolaethau yng Nghymru a Lloegr	Marwolaethau rywle arall
1. Llai na 6 mis	<b>5</b>	<b>0</b>
2. Dros 6 mis ond ddim mwy na 12 mis	<b>3</b>	<b>0</b>
3. Dros 12 mis ond dim mwy na 2 flynedd	<b>0</b>	<b>0</b>
4. Dros 2 flynedd	<b>0</b>	<b>0</b>
Dyddiad dechrau <sup>3</sup> yr achos hynaf ym mhob colofn	<b>15/04/2021</b>	<b>0</b>
Rhowch ddisgrifiadau byr o'r ddau achos a adroddwyd yn y rhes yn union uwchben	<b>oedi o ran archwilio'r ddyfais</b>	

#### Troednodiadau i Ran E

1. I gynnwys achosion nad oedd tystysgrifau wedi'u rhoi ar eu cyfer erbyn 31 Ionawr 2021.
2. Ar gyfer achosion a ohiriwyd o dan Atodlen 1, Paragraffau 1, 2, 3 & 5 a heb eu hailddechrau, dylid mesur yr amser hyd at y dyddiad pan roddwyd Ffurflen 120.
3. Gwiriwch fod y dyddiadau'n gywir yn ôl eich ffeiliau achos. Yn benodol, sicrhewch nad yw'r mis a'r diwrnod wedi'u rhoi o chwith yn ddamweiniol (e.e. dylai 4 Mai 2021 ymddangos fel 04/05/12 (neu 4 Mai 2021) ac nid fel 05/04/2021).















**Cyngor Sir CEREDIGION**

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol
<b>DYDDIAD:</b>	19 Rhagfyr 2022
<b>LLEOLIAD:</b>	Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / O bell trwy fideogynadledda
<b>TEITL:</b>	Safle Feidr Fair, Aberteifi

**Pwrpas yr Adroddiad**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 19 Hydref 2022, cododd yr Aelodau gwestiynau ynglŷn â'r ffordd yr aethpwyd ati i brynu safle Feidr Fair yn Aberteifi. Cytunwyd y byddai adroddiad yn cael ei baratoi a'i gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Cefndir**

Ym Mawrth 2021, cysylltodd perchennog safle Feidr Fair â'r Cyngor i ddweud ei fod wedi cael cynnig £680,000 oddi wrth barti arall am y tir sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel maes parcio. Gofynnodd y perchennog a oedd y Cyngor eisiau prynu'r safle yn hytrach na'i fod yn cael ei werthu i ddatblygwr preifat. O ystyried y potensial i ail-ddatblygu'r tir, dywedodd y perchennog ar y pryd fod y tir yn werth £1.25m.

**Achos Strategol**

Mae'r safle, sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio fel maes parcio, mewn lleoliad da yn y dref sy'n golygu bod nifer o bobl yn ei ddefnyddio at amrywiol ddibenion. Mae'r ffaith bod y maes parcio mor gyfleus yn denu pobl i'r dref. Byddai colli'r llefydd parcio hyn mor agos i'r dref yn tansellio'r ymdrechion i adfywio'r dref a'r gwaith o fynd i'r afael ag effaith y dirywiad economaidd.

Mae'r safle hefyd yn cynnwys lleoliad pwysig ar gyfer codi a gollwng disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Aberteifi (430 o ddisgyblion), a phe bai'r safle'n cael ei golli, ni fyddai lleoliadau amlwg eraill ar gael ar gyfer gwneud hyn. Mae Ysgol Gynradd Aberteifi yn safle cyfyng, a dim ond nifer cyfyngedig o lefydd parcio ar gyfer y staff sydd ar gael ar y safle. Mae'r maes parcio yn allweddol o ran sicrhau diogelwch disgyblion un o ysgolion cynradd mwyaf y sir wrth iddynt gael eu codi a'u gollwng. Mae'r gwaith ar yr ysgol, a ddechreuodd ym mis Gorffennaf 2022, wedi dwysáu'r anawsterau ar y safle.

**Achos Busnes**

Mae'r tir wedi'i osod ar brydles i'r Cyngor. Mae'r brydles yn un sy'n para 99 mlynedd a bydd yn dod i ben yn 2053. Fel y mae costau pethau heddiw, mae'r hyn a delir am y brydles yn rhad iawn (yr hyn sy'n cael ei alw'n swm '*peppercorn*').

## Tudalen 18

Cyn i'r cynnig i brynu'r safle gael ei wneud, roedd defnyddio'r safle fel maes parcio wedi creu'r incwm canlynol i'r Cyngor:

- 2019/20 £68,481
- 2018/19 £70,259
- 2017/18 £68,124
- 2016/17 £68,361
- 2015/16 £55,315

Mewn termau buddsoddi syml, mae'r incwm cyson o oddeutu £68,000 y flwyddyn yn golygu y bydd yn cymryd 8.8 mlynedd i adennill yr arian a fuddsoddwyd h.y. 11.3% y flwyddyn. Mae'r ffrwd incwm eisoes yn bodoli, felly nid yw hyn yn wariant cyfalaf at ddiben adenillion masnachol hollol newydd, ond mae'n dangos bod sicrhau'r ffrwd incwm hon yn rhoi gwerth am arian wrth ystyried y metrigau hyn.

Yn ogystal, cydnabuwyd y byddai gwerth y safle'n cynyddu wrth i nifer y blynyddoedd sy'n weddill ar y brydles leihau. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd cyffredinol a fu mewn gwerth tir at ddibenion datblygu.

### **Trafodaethau gyda'r Datblygwr**

Roedd yr ymatebion cychwynol i'r cais hwn yn gadarnhaol o ystyried diddordeb y parti arall ond roeddem hefyd yn betrus o ystyried hyd y brydles. Gwnaeth y trafodaethau cychwynol ganolbwyntio ar geisio cael rhagor o wybodaeth am fwriadau'r gwerthwr, canfod a oedd cynnig y parti arall yn un cadarn ai peidio, ac ystyried y goblygiadau i'r Cyngor pe byddai'r safle yn cael ei werthu i'r parti hwnnw. Wrth bwysu a mesur y ffactorau hyn, awgrymwyd nad oedd rhyw frys mawr i fwrw ymlaen â hyn ond y dylid parhau i drafod yn anffurfiol.

Yn ystod 2021, daeth yn fwy amlwg bod y gwerthwr yn ymwybodol o waith hanesyddol (o ran y pwll nofio a'r tir o'i amgylch, lledaenu'r ffordd a'r palmentydd) a oedd fel petai'n llechfeddiannu'r tir yr oedd wedi'i osod ar brydles. Gallai hyn achosi problemau i'r Cyngor pe bai'r perchennog neu'r perchennog newydd yn ceisio gorfodi neu ail-drafod amodau'r brydles gan gynnwys y risg y gallai'r brydles gael ei therfynu.

Roedd hyn yn golygu ei bod yn bwysig sicrhau'r safle gan gadw'r maes parcio er mwyn cefnogi'r dref a'r ysgol, sicrhau'r incwm presennol a sicrhau'r potensial i ddatblygu yn y dyfodol yn hytrach na pheryglu colli'r safle.

Felly cafodd y trafodaethau gyda'r datblygwyr eu dwysáu er mwyn sicrhau canlyniad cadarnhaol i'r dref ac i'r Cyngor.

## **Amseru prynu'r safle**

Fel rhan o'r trafodaethau uchod, ystyriwyd y posibilrwydd o wario cyllid Llywodraeth Cymru yn 2022/23, yn hytrach na cholli rhywfaint o'r cyllid neu'r cyllid cyfan. Er mwyn gwneud hyn, roedd angen gwario'r arian erbyn diwedd Mawrth 2022.

Roedd yn briodol prynu safle Feidr Fair at y diben hwn. Byddai hyn yn cefnogi'r rhaglen Trawsnewid Trefi yn Aberteifi yn fawr iawn, oherwydd byddai'r gwariant yn cael ei ddefnyddio yn lle cyllid nad oedd wedi'i wario, gan ganiatáu i'r cyllid hwnnw wedyn gael ei ddefnyddio at ddibenion adfywio yn Aberteifi (neu yn rhywle arall) yn 2022/23.

## **Trafodaeth Fewnol**

Cafodd y cais a'r achos busnes eu trafod yn y lle cyntaf ar lefel y swyddogion, yn bennaf o fewn y Gwasanaeth Economi ac Adfywio. Mae hyn yn rhywbeth arferol gan fod swyddogion yn rheolaidd yn ystyried cyfleoedd i gefnogi prosiectau datblygu a buddsoddi sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol, yn enwedig y flaenoriaeth allweddol o Hybu'r Economi.

Yn sgil mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru yn 2021 a 2022, cafwyd nifer o drafodaethau yng nghyfarfodydd y Grŵp Datblygu Asedau (26 Ionawr 2022) a'r Grŵp Datblygu (28 Chwefror 2022) Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio'n bennaf ar eiddo gwag, tir masnachol a diwydiannol, datblygu asedau'r Cyngor, a chaffael rhai adeiladau a darnau o dir. Mae cofnodion cyfarfod y Grŵp Datblygu ar 28 Chwefror yn nodi bod y posibilrwydd o brynu'r safle yn cael ei ystyried.

Ar y pryd hwnnw, roedd Aelodau (y Cyngorwyr Rhodri Evans, Dafydd Edwards, Dan Potter, Ivor Williams a Keith Evans) a swyddogion yn mynd i gyfarfodydd y Grŵp Datblygu Asedau. Roedd Aelodau (y Cyngorwyr Ellen ap Gwynn, Rhodri Evans, Dafydd Edwards a Gareth Lloyd) a swyddogion hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Grŵp Datblygu.

Cafodd y posibilrwydd o brynu'r safle hefyd ei drafod gydag aelodau'r Cabinet. Cafodd yr aelodau fanylion penodol yr achos busnes a oedd yn cefnogi'r broses o brynu'r tir yn Feidr Fair a chytunwyd bod angen sicrhau cyfrinachedd cyn adrodd am y manylion a fyddai'n cael eu rhannu fel rhan o ddiweddariad cyffredinol ynglŷn â datblygu asedau ar ôl i'r Grŵp Datblygu ailddechrau. Aelodau'r Cabinet ar y pryd oedd y Cyngorwyr Ellen ap Gwynn, Ray Quant, Catrin Miles, Rhodri Evans, Gareth Lloyd, Dafydd Edwards, Alun Williams a Catherine Hughes.

## **Penderfyniad**

Rhoddodd y Prif Weithredwr yr awdurdod i brynu'r eiddo ym mis Mawrth 2022, yn unol â'r Cyfansoddiad lle dirprwyir pwerau i 'wneud penderfyniadau ynghylch unrhyw swyddogaethau Cabinet lle bo angen gweithredu ar frys yn unol â Pharagraff 4 Erthygl 12 y Cyfansoddiad'.

Roedd y dull hwn o weithredu hefyd yn adlewyrchu'r protocolau cyn-etholiad. Er nad oes gwaharddiad ar gynnal busnes arferol y Cyngor neu wneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod cyn etholiad, mae'n debygol y bydd hyd yn oed yr hyn a ystyrir yn "fusnes fel arfer" yn dod yn

## Tudalen 20

fwyfwy gwleidyddol. Mae angen i Gynghorau felly fod yn ofalus er mwyn osgoi'r honiad bod adroddiad yn ymddangos fel pe bai'n cefnogi/hyrwyddo neu'n tanseilio/mynd yn groes i safbwyntiau unrhyw ymgeisydd neu blaid wleidyddol. Yn yr un modd, dylai adroddiadau osgoi materion y mae ymgeisydd yn ymgyrchu'n frwd yn eu cylch. Lle bo hynny'n bosibl, dylid gohirio adroddiadau fel hyn tan ar ôl yr etholiadau.

Yn ogystal, dirprwyir pwerau i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros yr Economi ac Adfywio i brynu eiddo. Nodir y pwerau hyn yn Rhan 3.5 o'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion – Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau'r Cyngor a'r Cabinet.

Mae'r cynllun hwn yn dirprwyo rhai o swyddogaethau neilltuol y Cyngor a'r Cabinet i swyddogion a dylid ei ddehongli yn yr ystyr ehangaf yn hytrach nag yn gyfyng. Mae Adran H yn ymwneud â'r Dirprwyaethau i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio ar yr amod bob tro bod y penderfyniad a) o fewn cyllideb y Cyngor neu'i gynlluniau benthycu; b) o fewn strategaeth gyffredinol y Cyngor neu'i fframwaith polisi; c) o fewn y Rheoliadau Ariannol a'r Gweithdrefnau Ariannol Cysylltiedig; a d) heb fod yn fater a neilltuir yn benodol i'r Cyngor Llawn, Pwyllgor o'r Cyngor, y Cabinet, Swyddog Statudol, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol neu'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol.

Mae Adran H yn cynnwys y canlynol:

Caiff y swyddogaethau canlynol eu dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio ac i unrhyw swyddogion a awdurdodir ganddo/ganddi o dro i dro fel y bo'n briodol ar yr amod bod y swyddogion yn meddu ar gymwysterau addas i gyflawni'r dyletswyddau a'r swyddogaethau hynny:

1. Trafod a chwblhau trafodion i brynu a gwerthu tir ac eiddo, rhoddi prydesau i'r Cyngor ac oddi wrtho'n unol â'r Cynllun Rheoli Asedau a Rhaglen Gyfalaf y Cyngor

Cwblhawyd y broses o brynu'r safle am £600,000 ar 28 Mawrth 2022. Roedd y pris yn adlewyrchu gwerth yr incwm, pwysigrwydd y safle i'r Cyngor a'r dref, y posibiladau o ran datblygu'r safle at y dyfodol a'r ansicrwydd a grëwyd o ran y materion llechfeddiannu.

**RHESWM Y MAE'R  
PWYLLGOR WEDI GOFYN  
AM Y WYBODAETH:**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 19 Hydref 2022, gofynnodd yr Aelodau am fanylion ynghylch y modd yr aethpwyd ati i brynu'r safle.

**LLESIANT  
CENEDLAETHAU'R  
DYFODOL:**

**A oes Aseiad Effaith Integredig** Nac oes wedi'i gwblhau? Os 'nac oes', nodwch pam

**Crynodeb:  
Hirdymor:**

**Integreiddio:**  
**Cydweithio:**  
**Cynnwys:**  
**Atal:**

**ARGYMHELLIAD:** Bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn nodi'r adroddiad.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**

Mae'r papur hwn er gwybodaeth.

<b>Enw Cyswllt:</b>	Russell Hughes-Pickering
<b>Swydd:</b>	Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio
<b>Dyddiad yr Adroddiad:</b>	25 Tachwedd 2022
<b>Acronymau:</b>	Dim
<b>Atodiadau:</b>	Dim

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

**Dyddiad y cyfarfod:** 19 Rhagfyr 2022

**Teitl:** Grŵp Datblygu a Grwpiau Ategol Eraill

**Pwrpas yr Adroddiad:** Adolygu'r trefniadau presennol a'r cylch gorchwyl

**Aelod y Cabinet a'r Portffolio:** Y Cynghorydd Clive Davies, Deilydd Portffolio Economi ac Adfywio

**Cefndir**

Ar 5 Medi 2017 bu i'r Cabinet ystyried adroddiad a chytuno ar newidiadau i drefniadau gweithredu a strwythur Rhaglen Drawsnewid a Pherfformiad y Cyngor. Fel rhan o'r trefniadau hyn cytunwyd i sefydlu Grŵp Datblygu newydd a Grŵp Monitro Cyfalaf. Adroddwyd ar gylch gorchwyl y grwpiau hyn i'r Cabinet ar 28 Tachwedd 2017 (Atodiad 1) a chytunwyd arno. Sefydlwyd trydydd grŵp, Grŵp Rheoli Prosiectau Corfforaethol, ar yr un pryd.

Yna cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 17 Mawrth 2020 (Atodiad 2) i gyflwyno Polisi Datblygu Asedau i'w ddilyn wrth ystyried cyfleoedd i hybu gwerth asedau cyn eu gwerthu. Sefydlwyd grŵp o swyddogion ac aelodau (panel) i roi argymhellion gerbron y Grŵp Datblygu.

Prif ddiben y grwpiau oedd:

- Grŵp Datblygu – ystyried ymhle dylid buddsoddi yn y dyfodol er mwyn cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor.
- Grŵp Monitro Cyfalaf – monitro a rheoli'r rhaglen gyfalaf.
- Grŵp Rheoli Prosiectau Corfforaethol – gwella'r gwaith o reoli prosiectau a rhoi cymorth i reolwyr prosiectau.
- Grŵp Rheoli Asedau – ystyried cyfleoedd datblygu cyn gwerthu asedau.

**Y rhesymau dros adolygu'r trefniadau**

Mae dau brif reswm dros adolygu'r trefniadau:

1. Mae Strategaeth Gorfforaethol newydd wedi'i chytuno. Mae'n bwysig adolygu'r rhaglen ddatblygu strategol a'r rhaglen gyfalaf er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni prif amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf a thu hwnt i hynny.
2. Adolygu'r trefniadau yn unol ag argymhelliad yn Adroddiad Archwilio Cymru - Llamu Ymlaen. Gweler yr Adroddiad yn Atodiad 3. Dywed Argymhelliad 2:

## Tudalen 24

Gallai prosesau'r Cyngor ar gyfer cynllunio, monitro a llywodraethu ei asedau gael eu cryfhau trwy:

- ddiweddarau ei Gynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau a Chorfforaethol 2018;
- sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu'r weledigaeth hirdymor gyfredol ar gyfer asedau a'u bod yn cael eu hintegreiddio â'r broses cynllunio busnes;
- datblygu cynlluniau cadarn i reoli'r risgiau a ganfuwyd gan arolwg cyflwr 2019; a
- disgrifio'n glir sut y mae'n defnyddio'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy i drefnu strategaethau a chynlluniau sydd â ffocws ar asedau yn y dyfodol.

Mewn ffurflen ymateb gan y rheolwyr, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Medi 2022, cydnabu'r Cyngor fod modd gwneud gwelliannau i gael gweledigaeth a chynllun hirdymor ar gyfer ei asedau sy'n fwy strategol. Bydd yn gwneud hyn drwy'r canlynol:

- Diweddarau Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol y Cyngor.
- Adolygu'r trefniadau rheoli asedau a datblygu asedau fel eu bod yn fwy strategol a haws eu dilyn.
- Datblygu rhaglen gyfalaf 10 mlynedd er mwyn cynnal, gwella a, lle bo hynny'n briodol, cael gwared ar asedau'r Cyngor.

Mae'r ymateb yn nodi dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn a hynny mewn dau gam. Y cyntaf, i adolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli a datblygu asedau ym mis Medi / Hydref 2022 ac yna i baratoi Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol drafft newydd, gan gynnwys cynllun 10 mlynedd ar gyfer cynnal asedau erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

### **Y Ffordd Ymlaen a gynigir**

Roedd y drafodaeth yn y Grŵp Datblygu ar 17 Hydref 2022 a 28 Tachwedd 2022 wedi adolygu'r trefniadau presennol a bu i'r Aelodau gynnig:

Y dylai'r Grŵp Datblygu fod â rôl allweddol wrth ddatblygu Cynllun Datblygu mwy hirdymor i'r Cyngor sy'n cynnig fframwaith strategol ar gyfer cyflawni rhaglenni datblygu allweddol a fydd yn hybu Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor a'i flaenoriaethau o ran gwella.

Dylai wneud hyn drwy ddatblygu Rhaglen Gyfalaf tymor byr, tymor canolig, a hirdymor sy'n cefnogi rhaglenni datblygu i hybu'r economi, i gynnal a gwella asedau, i foderneiddio ysgolion, i ddarparu cyfleusterau gofal, iechyd a hamdden priodol, i gefnogi'r ddarpariaeth tai, i ddarparu gwell seilwaith, i ymateb i newid hinsawdd ac anghenion amgylcheddol.

Y dylai pob rhaglen nodi'r prosiectau allweddol sy'n cael eu dilyn a hefyd cynnwys papurau i nodi lle mae prosiectau newydd yn cael eu cynnig ac o ble y ceisir am gyllid.



## Tudalen 25

Mae templed wedi'i ddrafftio i helpu i gywain y wybodaeth fesul rhaglen, gan gynnwys cyfeiriad at y strategaethau perthnasol ynghyd â lle i nodi'r rhaglen(ni) a'r prosiectau a fydd yn cyflawni'r rhaglen(ni). Mae'r templed hefyd yn ceisio nodi'r costau, cyllid allanol, y galw a fydd ar y rhaglen gyfalaf / y cyllid a ddaw ohoni, ac i nodi amserlenni ar gyfer rhaglenni a phrosiectau.

Mae ail dempled yn nodi adroddiad blaen diwygiedig. Bydd gan adroddiadau yn y dyfodol dri is-bennawd fel a ganlyn:

- Diweddariad cryno o ran y rhaglen
- Tynnu sylw'n benodol at unrhyw anawsterau / llithriant
- Rhaglenni / prosiectau newydd neu rai sy'n dod i'r amlwg

Bydd hyn yn helpu i roi sicrwydd i'r Grŵp Datblygu fod pob rhaglen yn cael ei gweithredu yn ôl y disgwyl, y darperir diweddariadau lle mae yna anawsterau neu lithriant ac y rhoddir cyfle i wneud ceisiadau a thynnu sylw at syniadau newydd ar gyfer datblygu.

Byddai'r dull gweithredu yn rhoi trosolwg mwy strategol o'r rhaglen yn ogystal â chaniatáu amser i drafod syniadau a phrosiectau i weld a ydynt yn cydweddu ag amcanion y Strategaeth Gorfforaethol cyn eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf. Bydd hyn yn helpu wrth flaenoriaethu cyllidebau.

Bydd y Grŵp Datblygu yn cael ei gefnogi gan grwpiau mwy gweithredol ym meysydd Monitro Cyfalaf, Rheoli Prosiectau Corfforaethol a Rheoli Asedau.

### **Aelodaeth**

Wrth drafod yn y Grŵp Datblygu daethpwyd i'r casgliad y dylid newid aelodaeth y Grŵp Datblygu a'r grwpiau ategol, fel y nodir isod.

Dylai'r Grŵp Datblygu fod yn grŵp trawsbleidiol (5 aelod) sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Strategol a chynrychiolwyr o'r meysydd gwasanaeth. Bydd gan y grŵp oruchwyliaeth briodol dros Raglen Ddatblygu'r Cyngor; y gwaith o ddatblygu, gweithredu a darparu rhaglenni datblygu o fewn iddi; a thros datblygu rhaglenni a phrosiectau sy'n dod i'r amlwg ac a fydd yn helpu i gyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor.

Bydd y Grŵp Datblygu yn cael cymorth gan grwpiau gweithredol Monitro Cyfalaf, Rheoli Prosiectau Corfforaethol a Rheoli Asedau a fydd yn paratoi adroddiadau i'r Grŵp Datblygu eu hystyried. Bydd natur gwaith y grwpiau hyn yn debyg i'r rhai sy'n bodoli eisoes gan y byddent yn monitro ac yn cyflwyno'r rhaglen gyfalaf, yn paratoi rhaglenni a phrosiectau newydd i'w cynnwys yn y rhaglen gyfalaf ac yn cynnal y gefnogaeth i wasanaethau parthed rheoli prosiectau.

Gyda'r Grŵp Monitro Cyfalaf, cynigir y byddai'r grŵp yn cael y grym i fod yn fwy rhagweithiol wrth reoli o ddydd i ddydd y Rhaglen Gyfalaf gymeradwy a fydd yn cwmpasu sawl blwyddyn e.e. yn meddu ar y gallu i wneud penderfyniadau i ddyrannu cyllid ychwanegol, trosglwyddo arian cyllidebol a rheoli llithriant rhwng

## Tudalen 26

blynyddoedd ariannol. Byddai hyn o fewn ffiniau penodol ac os eir y tu hwnt i'r rhain byddai angen cyfeirio'r materion at y Grŵp Datblygu a/neu'r Cabinet.

### Cylch Gorchwyl

I adlewyrchu'r uchod, mae'r Cylch Gorchwyl wedi cael ei ail-ddrafftio. Mae ynghlwm ar ffurf Atodiad 4.

	<b>A wnaed Integredig? nodwch pam</b>	<b>Asesiad Os naddo,</b>	Nid ar gyfer y trefniadau, ond maent ar y gweill i'w hystyried gan y grwpiau.
<b>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</b>		<b>Crynodeb: Hirdymor: Cydwethio: Cynnwys: Atal: Integreiddio:</b>	
<b>Argymhelliad:</b>		1.	Ystyried yr adroddiad a rhoi adborth i'r Cabinet ei ystyried.
<b>Rheswm dros y penderfyniad:</b>		1. 2. 3.	I oruchwylio'n strategol a rheoli Rhaglen Ddatblygu'r Cyngor mewn ffordd well. I wella'r trefniadau ar gyfer cyflawni Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor. I ddefnyddio amser ac adnoddau yn effeithlon ac effeithiol.
<b>Trosolwg a Chraffu:</b>			Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 3 Hydref, 2022 cafodd yr Aelodau ddiweddariad ar y gwaith Datblygu Asedau/Eiddo gwag, ac ar ôl trafod, cytunwyd i argymhell y canlynol i'r Cabinet: 1. Cadw'r Panel Asedau; 2. (Ddim yn berthnasol i'r adroddiad yma) 3. (Ddim yn berthnasol i'r adroddiad yma) 4. Y byddai adroddiad cynnydd ar y gwaith wrth symud ymlaen ar asedau'r Cyngor yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.
<b>Fframwaith Polisi:</b>			Strategaeth Gorfforaethol
<b>Blaenoriaethau Corfforaethol:</b>			Y cyfan. Bydd yn helpu i gysoni'r rhaglen ddatblygu a'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau.
<b>Goblygiadau Ariannol a Chaffael:</b>			Dim yn benodol i'r adroddiad hwn heblaw gweithio'n fwy effeithlon.

## Tudalen 27

<b>Goblygiadau Cyfreithiol:</b>	Dim
<b>Goblygiadau Staffio:</b>	Dim
<b>Goblygiadau o ran Eiddo/ Asedau:</b>	Bydd yn cynnig dull mwy strategol o reoli asedau.
<b>Risg(iau):</b>	Dim
<b>Pwerau Statudol:</b>	
<b>Papurau Cefndirol:</b>	Adroddiad blaenorol i'r Cabinet 26/07/22
<b>Atodiadau:</b>	Atodiad 1 – Adroddiad Cabinet 28 11 2017 Atodiad 2 – Adroddiad Cabinet 17 03 2020 Atodiad 3 – Archwilio Cymru - Llamu Ymlaen Atodiad 4 – Cylch Gorchwyl
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	Russell Hughes-Pickering, Economi ac Adfywio
<b>Swyddog Adrodd:</b>	Russell Hughes-Pickering
<b>Dyddiad:</b>	02/12/22

**CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

**Report to:** Cabinet

**Date of meeting:** 28<sup>th</sup> November 2017

**Title:** Capital Monitoring Group and Development Group Terms of Reference

**Purpose of the report:** To note the Terms of Reference for the Capital Monitoring Group and Development Group.

**For:** Information

**Cabinet Portfolio and Cabinet Member:** Councillor Ellen ap Gwynn, Leader of the Council;  
Councillor Ray Quant MBE, Deputy Leader of the Council and Cabinet Member for Technical Services and Corporate Services;  
Councillor Dafydd Edwards, Cabinet Member for Finance, ICT and Customer Services along with Housing

On the 5<sup>th</sup> September 2017 Cabinet considered a report and agreed amendments to the operating arrangements and structure of the Council's Transformation and Performance programme.

The new reporting structure brings together matters such as transformation, performance and financial management as they all have a direct impact on the Council's improvement programme.

Part of this change included the setting up of new Capital Monitoring Group and a Development Group. These are now operational. Terms of Reference have been drafted and considered by the groups and by the Cross Party Transformation and Efficiency Group. The Terms of Reference are being reported for information.

	<b>Has an Integrated Impact Assessment been completed? If, not, please state why</b>	Not completed as the report is not a Policy or Service change and does not have an impact on service users.
<b>Wellbeing of Future Generations:</b>	<b>Summary:</b>	
	Long term:	N/A
	Integration:	N/A
	Collaboration:	N/A
	Involvement:	N/A
	Prevention:	N/A

**Recommendations:** 1. To note the Terms of Reference for the Capital Monitoring Group and the Development Group.

## Tudalen 29

<b>Reasons for decision:</b>	<b>To enable the successful management of the entire transformation, project and development programmes and the routine reporting of progress to inform the Council's Corporate Strategy and financial monitoring.</b>
<b>Overview and Scrutiny:</b>	The Terms of Reference have been considered by the Cross Party Transformation and Efficiency Group.
<b>Policy Framework:</b>	Corporate Strategy, Transformation Programme; Performance Management; Medium Term Financial Strategy
<b>Strategic Objectives:</b>	The groups support the delivery of all four objectives set out in the Corporate Strategy.
<b>Financial implications:</b>	There are no financial implications associated with the recommendations of this report.
<b>Statutory Powers:</b>	N/A
<b>Background Papers:</b>	Cabinet minute C65 – 26 <sup>th</sup> September 2017 Cabinet report – 5 <sup>th</sup> September 2017
<b>Appendices:</b>	Appendix A – Terms of Reference
<b>Head of Service:</b>	Eifion Evans, Chief Executive
<b>Reporting Officer:</b>	Russell Hughes-Pickering Head of Performance and Economy
<b>Date:</b>	10 <sup>th</sup> November 2017

## **Terms of Reference for the Capital Monitoring and Development Groups**

### Introduction

The Capital Expenditure Working Group (CEWG) has been replaced by the Capital Monitoring Group and the Development Group.

The original purpose of CEWG was to establish the Council's spend priorities and to then formulate and manage programmes of capital work to meet these objectives. Works would be funded through clean capital resources and through capital receipts for through the sale of lands and properties.

In recent years the capital programme has significantly reduced with current spend approximately 50% less than previous levels. At the same time, external funding sources have also reduced for major projects. As a consequence a more creative and innovative approach is required if the Council is to maintain a capital programme that will help deliver the Corporate Strategy and improvements to its services and infrastructure.

<p><b>Age</b>                  Do you think this proposal will have a positive or a negative impact on people because of their age? (Please tick ✓)</p> <table border="1" data-bbox="76 994 786 1431"> <thead> <tr> <th></th> <th>Positive</th> <th>Negative</th> <th>None/ Negligible</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Children and Young People up to 18</td> <td></td> <td></td> <td>✓</td> </tr> <tr> <td rowspan="2">People 18-50</td> <td>Positive</td> <td>Negative</td> <td>None/ Negligible</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td>✓</td> </tr> <tr> <td rowspan="2">Older People 50+</td> <td>Positive</td> <td>Negative</td> <td>None/ Negligible</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td>✓</td> </tr> </tbody> </table>		Positive	Negative	None/ Negligible	Children and Young People up to 18			✓	People 18-50	Positive	Negative	None/ Negligible			✓	Older People 50+	Positive	Negative	None/ Negligible			✓	<p>All service users will be treated with equal respect irrelevant of their race, colour, religion, ethnicity, sex, age, disability, nationality, marital status, pregnancy and maternity, sexual orientation or gender reassignment.</p>		
	Positive	Negative	None/ Negligible																						
Children and Young People up to 18			✓																						
People 18-50	Positive	Negative	None/ Negligible																						
			✓																						
Older People 50+	Positive	Negative	None/ Negligible																						
			✓																						

Tudalen 79

# Cyngor Sir Ceredigion County Council - Integrated Impact Assessment (IIA)

An integrated tool to inform effective decision making



<b>Disability</b> Do you think this proposal will have a positive or a negative impact on people because of their disability? (Please tick ✓)				All service users will be treated with equal respect irrelevant of their race, colour, religion, ethnicity, sex, age, disability, nationality, marital status, pregnancy and maternity, sexual orientation or gender reassignment.  Any new development will have to comply to the Equality Act 2010 and part M of the Building Regulations, requiring that adequate provisions be made for people to access and use a building, its facilities and its environs.		
Hearing Impairment	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Physical Impairment	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Visual Impairment	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Learning Disability	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Long Standing Illness	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Mental Health	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Other	Positive	Negative	None/ Negligible			

<b>Transgender</b> Do you think this proposal will have a positive or a negative impact on transgender people? (Please tick ✓)				All service users will be treated with equal respect irrelevant of their race, colour, religion, ethnicity, sex, age, disability, nationality, marital status, pregnancy and		
Transgender	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			

Tudalen 74

# Cyngor Sir Ceredigion County Council - Integrated Impact Assessment (IIA)

An integrated tool to inform effective decision making



				maternity, sexual orientation or gender reassignment.		
<b>Marriage or Civil Partnership</b> Do you think this proposal will have a positive or a negative impact on marriage or Civil partnership? (Please tick ✓)				All service users will be treated with equal respect irrelevant of their race, colour, religion, ethnicity, sex, age, disability, nationality, marital status, pregnancy and maternity, sexual orientation or gender reassignment.		
Marriage	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Civil partnership	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
<b>Pregnancy or Maternity</b> Do you think this proposal will have a positive or a negative impact on pregnancy or maternity? (Please tick ✓)				All service users will be treated with equal respect irrelevant of their race, colour, religion, ethnicity, sex, age, disability, nationality, marital status, pregnancy and maternity, sexual orientation or gender reassignment.		
Pregnancy	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Maternity	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
<b>Race</b> Do you think this proposal will have a positive or a negative impact on race? (Please tick ✓)				All service users will be treated with equal respect irrelevant of their race, colour, religion, ethnicity, sex, age, disability, nationality, marital status, pregnancy and maternity, sexual orientation or gender reassignment.		
White	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Mixed/Multiple Ethnic Groups	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			

Tudalen 75

# Cyngor Sir Ceredigion County Council - Integrated Impact Assessment (IIA)

An integrated tool to inform effective decision making



Asian / Asian British	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Black / African / Caribbean / Black British	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Other Ethnic Groups	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			

<b>Religion or non-beliefs</b>				All service users will be treated with equal respect irrelevant of their race, colour, religion, ethnicity, sex, age, disability, nationality, marital status, pregnancy and maternity, sexual orientation or gender reassignment.		
Do you think this proposal will have a positive or a negative impact on people with different religions, beliefs or non-beliefs? (Please tick ✓)						
Christian	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Buddhist	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Hindu	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Humanist	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Jewish	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Muslim	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			

Tudalen 76

# Cyngor Sir Ceredigion County Council - Integrated Impact Assessment (IIA)

An integrated tool to inform effective decision making



Sikh	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Non-belief	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Other	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
<b>Sex</b> Do you think this proposal will have a positive or a negative impact on men and/or women? (Please tick ✓)				All service users will be treated with equal respect irrelevant of their race, colour, religion, ethnicity, sex, age, disability, nationality, marital status, pregnancy and maternity, sexual orientation or gender reassignment.		
Men	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Women	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
<b>Sexual Orientation</b> Do you think this proposal will have a positive or a negative impact on people with different sexual orientation? (Please tick ✓)				All service users will be treated with equal respect irrelevant of their race, colour, religion, ethnicity, sex, age, disability, nationality, marital status, pregnancy and maternity, sexual orientation or gender reassignment.		
Bisexual	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Gay Men	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			
Gay Women / Lesbian	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			

Tudalen 77



Heterosexual / Straight	Positive	Negative	None/ Negligible			
			✓			

**Having due regards in relation to the three aims of the Equality Duty - determine whether the proposal will assist or inhibit your ability to eliminate discrimination; advance equality and foster good relations.**

**3.6.2. How could/does the proposal help advance/promote equality of opportunity?**

*You should consider whether the proposal will help you to:*

- Remove or minimise disadvantage
- To meet the needs of people with certain characteristics
- Encourage increased participation of people with particular characteristics

Asset Development Policy will support the programmes put in place by the authority where the need for a particular requirement is identified.

**3.6.3. How could/does the proposal/decision help to eliminate unlawful discrimination, harassment, or victimisation?**

*You should consider whether there is evidence to indicate that:*

- The proposal may result in less favourable treatment for people with certain characteristics
- The proposal may give rise to indirect discrimination
- The proposal is more likely to assist or impeded you in making reasonable adjustments

All service users will be treated with equal respect.

**3.6.4. How could/does the proposal impact on advancing/promoting good relations and wider community cohesion?**

*You should consider whether the proposal will help you to:*

- Tackle prejudice
- Promote understanding

All service users will be treated with equal respect.

# Cyngor Sir Ceredigion County Council - Integrated Impact Assessment (IIA)

An integrated tool to inform effective decision making



<b>3.7. A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language</b> Culture, heritage and Welsh Language are promoted and protected. <i>In this section you need to consider the impact, the evidence and any action you are taking for improvement. This in order to ensure that the opportunities for people who choose to live their lives and access services through the medium of Welsh are not inferior to what is afforded to those choosing to do so in English, in accordance with the requirement of the Welsh Language Measure 2011.</i>				Describe why it will have a positive/negative or negligible impact.	What evidence do you have to support this view?	What action (s) can you take to mitigate any negative impacts or better contribute to positive impacts?
Will the proposal be delivered bilingually (Welsh & English)?	Positive	Negative	None/ Negligible	The Council conforms to the requirements of the Welsh Language Standards and further measures to promote bilingualism.		
			✓			
Will the proposal have an effect on opportunities for persons to use the Welsh language?	Positive	Negative	None/ Negligible	The Council conforms to the requirements of the Welsh Language Standards and further measures to promote bilingualism.		
			✓			
Will the proposal increase or reduce the opportunity for persons to access services through the medium of Welsh?	Positive	Negative	None/ Negligible	The Council conforms to the requirements of the Welsh Language Standards and further measures to promote bilingualism.		
			✓			
How will the proposal treat the Welsh language no less favourably than the English language?	Positive	Negative	None/ Negligible	The Council conforms to the requirements of the Welsh Language Standards and further		
			✓			

Tudalen 79

# Cyngor Sir Ceredigion County Council - Integrated Impact Assessment (IIA)

An integrated tool to inform effective decision making



				measures to promote bilingualism.		
Will it preserve promote and enhance local culture and heritage?	Positive	Negative	None/ Negligible	The Council conforms to the requirements of the Welsh Language Standards and further measures to promote bilingualism.		
			✓			





**4. STRENGTHENING THE PROPOSAL:** If the proposal is likely to have a negative impact on any of the above (including any of the protected characteristics), what practical changes/actions could help reduce or remove any negative impacts as identified in sections 2 and 3?

**4.1 Actions.**

What are you going to do?	When are you going to do it?	Who is responsible?	Progress

**4.2. If no action is to be taken to remove or mitigate negative impacts please justify why.**

*(Please remember that if you have identified unlawful discrimination, immediate and potential, as a result of this proposal, the proposal must be changed or revised).*

No intended negative impact.

**4.3. Monitoring, evaluating and reviewing.**

*How will you monitor the impact and effectiveness of the proposal?*

There is a built in review process to identify improvement in an area if and when required. This review process happens often at the Asset Development Group meetings, Asset Development Assessment Panel and at the Annual Asset Development Property Plan meeting.

Tudalen 81

**5. RISK:** What is the risk associated with this proposal?

Impact Criteria	1 - Very low	2 - Low	3 - Medium	4 - High	5 - Very High
Likelihood Criteria	1 - Unlikely to occur	2 - Lower than average chance of occurrence	3 - Even chance of occurrence	4 - Higher than average chance of occurrence	5 - Expected to occur
Risk Description	Impact (severity)		Probability (deliverability)		Risk Score
Not Delivering Policy	3		2		6
Maximising Capital receipts	3		2		6

# Cyngor Sir Ceredigion County Council - Integrated Impact Assessment (IIA)

An integrated tool to inform effective decision making



Economic down turn	3	2	6
Does your proposal have a potential impact on another Service area?			
All other Service areas.			

<b>6. SIGN OFF</b>			
Position	Name	Signature	Date
Service Manager			
Head of Service			
Strategic Director			
Portfolio Holder			

Tudalen 82

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	<b>Cabinet</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>17 Mawrth 2020</b>
<b>LLEOLIAD:</b>	<b>Siambwr y Cyngor, Penmorfa</b>
<b>TEITL:</b>	<b>Adolygiad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol o Bolisi Datblygu Asedau Drafft 2020</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	<b>Rhoi adborth ar Bolisi Datblygu Asedau Drafft 2020 yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 26 Chwefror 2020.</b>

### **CEFNDIR:**

Yn ei gyfarfod ar 26 Chwefror 2020, rhoddodd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ystyriaeth i Bolisi Datblygu Asedau Drafft 2020.

Cytunwyd ar y Polisi presennol yn 2008. Prif bwyslais y polisi hwn yw'r gweithdrefnau ar gyfer gwaredu'r asedau nad oes ar y Cyngor mo'u hangen mwyach. Mae angen i'r Cyngor ddiweddarau'r polisi er mwyn rhoi fwy o ystyriaeth i wneud y defnydd gorau a/neu gael y gwerth gorau o'n hasedau cyn eu gwaredu ar y farchnad agored.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr argymhelliad canlynol:

- Ystyried y polisi drafft ac awgrymu unrhyw newidiadau cyn bod y polisi'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet er cymeradwyaeth.

### **ARGYMHELLIAD:**

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymhell bod y Cabinet yn:

- Cymeradwyo'r Polisi Datblygu Asedau Drafft er mwyn galluogi dull mwy strategol o ddatblygu a rheoli asedau.

### **Yn ddibynol ar ystyried yr argymhellion canlynol:**

1. Ei bod yn hanfodol ymgynghori â'r Aelodau Lleol bob amser cyn unrhyw broses brydlesu, gwaredu a chaffael (gan gynnwys Trosglwyddo Asedau Cymunedol) a bod yr Aelodau Lleol yn cael y newyddion diweddaraf am hynt y broses;
2. Bod 1 uchod yn cael ei gynnwys fel gofyniad yn y Polisi Datblygu Asedau Drafft (2020);
3. Ystyried, lle bo'n briodol, trosglwyddo asedau nad oes mo'u hangen a hynny o dan y Cynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol; ac
4. Y dylai Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol fod yn Aelodau o'r Panel Asesu.

**Y Cyngorydd Keith Evans**  
**Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol**

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

**REPORT TO:** Cabinet

**DATE:** 17 March 2020

**LOCATION:** Council Chamber, Penmorfa

**TITLE:** The Corporate Resources Overview and Scrutiny Committee review of the Draft Asset Development Policy 2020

**PURPOSE OF REPORT:** To provide feedback from the Corporate Resources Overview and Scrutiny Committee held on 26 February 2020 on the Draft Asset Development Policy 2020

**BACKGROUND:**

At its 26 February 2020 meeting, Members of the Corporate Resources Overview and Scrutiny Committee considered the Draft Asset Development Policy 2020.

The existing Policy was agreed in 2008. The principal focus of this policy is the procedures for disposal of surplus Council Assets. This Policy requires updating to give more consideration to optimising the use and/or value of our assets prior to disposing on the open market.

Members were asked to consider the following recommendation:

- To consider the draft policy and suggest any amendments prior to the policy being reported to Cabinet for approval.

**RECOMMENDATION/S:**

Following discussion, Committee Members agreed to recommend that Cabinet:

- Approve the Draft Asset Development Policy to enable a more strategic approach to the development and management of assets.

**Subject to consideration of the following recommendations:**

1. It is crucial that Local Members are always consulted prior to, and kept informed throughout any leasing, disposals and acquisitions process (including Community Asset Transfers);
2. That 1 above is included as a requirement in the draft Asset Development Policy (2020);
3. To consider where appropriate transferring surplus assets under the Community Asset Transfer Scheme; and;
4. The Chairman and Vice-chairman of the Corporate Resources Overview and Scrutiny Committee should be Members of the Assessment Panel.

**Councillor Keith Evans**  
***Chairman of the Corporate Resources Overview and Scrutiny Committee***

## Llamu Ymlaen – Rheoli Asedau'n Strategol – Cyngor Sir Ceredigion

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2970A2022

## Tudalen 86

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Ceredigion fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae dull strategol y Cyngor o reoli ei asedau'n gwella ac mae'r pandemig wedi cyflymu cynlluniau ar gyfer y modd y bydd yn defnyddio'i asedau allweddol i gyflawni ei flaenoriaethau. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod meysydd lle gallai ei ddull gael ei gryfhau.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae dull strategol y Cyngor o reoli ei asedau'n gwella ac mae'r pandemig wedi cyflymu cynlluniau ar gyfer y modd y bydd yn defnyddio'i asedau allweddol i gyflawni ei flaenoriaethau. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod meysydd lle gallai ei ddull gael ei gryfhau 8

Mae gan y Cyngor nifer o fentrau sy'n trefnu'r modd y defnyddir ei asedau cyfredol a'r asedau a fydd ganddo yn y dyfodol, a gyflymwyd yn rhannol gan y pandemig 8

Mae gan y Cyngor drefniadau ar gyfer cynllunio, monitro a llywodraethu asedau, sy'n ystyried angen, a chyflenwad, hirdymor, ac yn cydnabod bod meysydd lle gellid cryfhau hyn 10

Bydd sefydlogrwydd ariannol y Cyngor a'i allu i ddenu cyllid yn rheolaidd yn parhau i gefnogi ei uchelgeisiau ar gyfer ei asedau, ac mae'n ymwybodol bod costau cynnal a chadw ei asedau a diffygion rhagamcanol yn y gyllideb yn dal i fod yn risgiau allweddol 12

Ceir nifer o enghreifftiau lle mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio neu'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid i wneud defnydd gwell o'i bortffolio asedau i roi cymorth i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a'i amcanion llesiant 13

Mae'r Cyngor wedi defnyddio gwybodaeth feincnodi a gwersi sydd ar gael mewn perthynas ag asedau i ategu penderfyniadau ynglŷn ag asedau penodol ac mae'n cydnabod bod angen iddo gryfhau'r meysydd hyn ymhellach 14

# Cynnwys

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

- 1 Wrth i'r byd symud yn ei flaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, fe wnaeth yr adolygiad hwn ystyried pa mor effeithiol y mae'r Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a chymunedau.
- 2 Fe wnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei Asedau. Ar gyfer Asedau, mae ein ffocws wedi bod ar yr heriau a'r cyfleoedd a waethygyd ac a gyflymwyd gan y pandemig.
- 3 Fe wnaethom ystyried sut y mae'r Cyngor yn cynllunio'n strategol i ddefnyddio'i Asedau, sut y mae'n monitro'r defnydd ohonynt a sut y mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.
- 4 Pan ddechreuom ni ein gwaith archwilio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 roeddem yn cydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond fe wnaethom hefyd nodi ein disgwyliad dros y tymor canolig y byddai cyrff cyhoeddus yn gallu dangos sut y mae'r Ddeddf yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud. Mae bellach bron yn saith mlynedd ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydym bellach yn yr ail gyfnod adrodd ar gyfer y Ddeddf. Felly, byddem yn disgwyl yn awr i gyrff cyhoeddus fod yn gallu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl a'i bod wir yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud.
- 5 Roedd tri phrif nod i'r prosiect hwn:
  - cael sicwydd bod y Cyngor yn rhoi trefniadau ar waith i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau;
  - egluro'r camau gweithredu y mae'r Cyngor yn eu cymryd yn unigol ac mewn partneriaeth i gryfhau ei drefniadau yn ogystal â gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach; ac
  - ysbrydoli'r Cyngor a sefydliadau eraill i gryfhau eu trefniadau ymhellach trwy gofnodi a rhannu enghreifftiau o arfer a gwersi nodedig a gwneud argymhellion priodol.
- 6 O ran y sefyllfa ym mis Hydref 2020 (heb gynnwys asedau tir), roedd gan Gyngor Sir Ceredigion y portffolio asedau canlynol.



## Arddangosyn 1: portffolio asedau

Unedau Eiddo Gwag	19
Unedau Eiddo Cyffredinol	95
Ysgolion	45
Eiddo ar Brydles	40
Amrywiol	4
Cyfanswm	203

- 7 Mae gan y Cyngor arolwg cyflwr cyfredol (2019) sy'n cwmpasu oddeutu 30% o'i bortffolio asedau.
- 8 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr 2022 a mis Mawrth 2022.

## Yr hyn a ganfuom

- 9 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw dull strategol y Cyngor o reoli ei asedau'n cryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu ei wasanaethau yn y tymor byr a hwy?
- 10 Rydym wedi dod i'r casgliad bod dull strategol y Cyngor o reoli ei asedau'n gwella ac mae'r pandemig wedi cyflymu cynlluniau ar gyfer y modd y bydd yn defnyddio'i asedau allweddol i gyflawni ei flaenoriaethau. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod meysydd lle gallai ei ddull gael ei gryfhau.
- 11 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
  - mae gan y Cyngor nifer o fentrau sy'n trefnu'r modd y defnyddir ei asedau cyfredol a'r asedau a fydd ganddo yn y dyfodol, a gyflymwyd yn rhannol gan y pandemig;
  - mae gan y Cyngor drefniadau ar gyfer cynllunio, monitro a llywodraethu asedau, sy'n ystyried angen, a chyflenwad, hirdymor, ac yn cydnabod bod meysydd lle gellid cryfhau hyn;
  - bydd sefydlogrwydd ariannol y Cyngor a'i allu i ddenu cyllid yn rheolaidd yn parhau i gefnogi ei uchelgeisiau ar gyfer ei asedau, ac mae'n ymwybodol

bod costau cynnal a chadw ei asedau a diffygion rhagamcanol yn y gyllideb yn dal i fod yn risgiau allweddol;

- ceir nifer o enghreifftiau lle mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio neu'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid i wneud defnydd gwell o'i bortffolio asedau i roi cymorth i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a'i amcanion llesiant; ac
- mae'r Cyngor wedi defnyddio gwybodaeth feincnodi a gwersi sydd ar gael mewn perthynas ag asedau i ategu penderfyniadau ynglŷn ag asedau penodol ac mae'n cydnabod bod angen iddo gryfhau'r meysydd hyn ymhellach.

## Argymhellion

### Arddangosyn 2: argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

#### Argymhellion

##### **A1 Ymgysylltu'n gynnar ynghylch newidiadau allweddol i'r modd y defnyddir asedau**

Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn ymgysylltu'n gynnar ag Aelodau'r Cyngor, y Grŵp Arwain ehangach, dinasyddion a rhanddeiliaid eraill ynghylch yr effaith y bydd newidiadau allweddol yn ei Strategaeth Gweithio Hybrid yn ei chael ar rai o asedau allweddol y Cyngor, megis y swyddfeydd ym Mhenmorfa a'r cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer y modd y bydd dinasyddion yn cael mynediad at wasanaethau.

##### **A2 Gweledigaeth ar gyfer asedau a chynllunio asedau**

Gallai prosesau'r Cyngor ar gyfer cynllunio, monitro a llywodraethu ei asedau gael eu cryfhau trwy:

- ddiweddarau ei Gynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau a Chorfforaethol 2018, gan sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu'r weledigaeth hirdymor gyfredol ar gyfer asedau a'u bod yn cael eu hintegreiddio â'r broses cynllunio busnes;
- datblygu cynlluniau cadarn i reoli'r risgiau a ganfuwyd gan arolwg cyflwr 2019; a
- disgrifio'n glir sut y mae'n defnyddio'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy i drefnu strategaethau a chynlluniau sydd â ffocws ar asedau yn y dyfodol.

## Argymhellion

---

### A3 Meincnodi

Dylai'r Cyngor ddatblygu a defnyddio data meincnodi pellach i:

- roi cymorth yn fwy fel rhan o'r drefn reolaidd i ddatblygu ei Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol a Gwasanaethau; a
- chryfhau ei drefniadau cynllunio busnes a hunanasesu.

## Adroddiad manwl

**Mae dull strategol y Cyngor o reoli ei asedau'n gwella ac mae'r pandemig wedi cyflymu cynlluniau ar gyfer y modd y bydd yn defnyddio'i asedau allweddol i gyflawni ei flaenoriaethau. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod meysydd lle gallai ei ddull gael ei gryfhau**

**Mae gan y Cyngor nifer o fentrau sy'n trefnu'r modd y defnyddir ei asedau cyfredol a'r asedau a fydd ganddo yn y dyfodol, a gyflymwyd yn rhannol gan y pandemig**

- 12 I gydlyn ei ymateb i'r pandemig, fe sefydlodd y Cyngor strwythur Rheoli Digwyddiad Tyngedfennol. Fe wnaeth y strwythur hwn hwyluso'r modd y gallai asedau'r Cyngor ac asedau rhai o'i bartneriaid, megis Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chartrefi gofal preifat, helpu i ymateb i'r pandemig, megis: ailbwrpasu canolfannau hamdden yn ysbytai maes, sefydlu cyfleusterau corffdai a chanolfannau profi/brechu dros dro.
- 13 Hefyd, mewn ymateb i ofynion cyfreithiol y pandemig i weithio gartref, fe newidiodd niferoedd sylweddol o weithlu'r Cyngor i weithio ystwyth, gyda llawer o wasanaethau allweddol ar gael o fewn 48 awr i'r penderfyniad hwn. Er bod gweithio ystwyth eisoes yn un o'r amcanion yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer y Gweithlu, fe wnaeth y pandemig gyflymu'r newid hwn.
- 14 O ganlyniad, ac i reoli'r newidiadau sylweddol i'r modd y mae'r Cyngor yn defnyddio'i asedau a'i weithlu – yn awr ac yn y dyfodol – fe sefydlodd Brosiect Y Ffordd yr Ydym yn Gweithio – a elwir bellach yn brosiect Ffyrdd Newydd o Weithio. Trwy ymgynghori helaeth â staff, mae'r prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio wedi datblygu Strategaeth Gweithio Hybrid. Mae'r Cyngor yn datblygu'r ffordd y bydd yn gwireddu'r uchelgeisiau ar gyfer gweithio hybrid trwy brosiectau sy'n cynnwys:
  - òl troed y lleoliadau gwaith yn y dyfodol gyda'r ffocws uniongyrchol yn hyn o beth ar yr addasiadau sydd yn yr arfaeth ar gyfer prif adeilad y Cyngor yn Aberaeron;
  - dylunio amgylcheddau gweithio ar ffurf Hybiau ar gyfer staff ac Aelodau;
  - y platfformau digidol cywir i ategu'r newidiadau hyn;
  - gweithio i gefnogi profiad gwell i gwsmeriaid a sut y gall cwsmeriaid/dinasyddion barhau i gael mynediad at y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt, megis y cynigion ar gyfer manau cyfarfod rhithwir a alluogir yn ddigidol ym mhrif lyfrgelloedd y Cyngor;
  - newidiadau i bolisiâu a gweithdrefnau Adnoddau Dynol i adlewyrchu'r dirwedd hybrid newydd; a

- meddalwedd dysgu rhithwir a meddalwedd Adnoddau Dynol electronig gwell i gefnogi staff a rheolwyr yn yr amgylchedd ystwyth newydd.
- 15 Tra bo canlyniadau allweddol yn Strategaeth Gweithio Hybrid y Cyngor yn dal i gael eu datblygu, bydd yn bwysig i'r Cyngor ymgysylltu'n gynnar ag Aelodau, y Grŵp Arwain ehangach, dinasyddion a rhanddeiliaid eraill ynghylch yr effaith y bydd y newidiadau cysylltiedig yn ei chael ar rai o asedau allweddol y Cyngor megis y swyddfeydd ym Mhenmorfa, a sut y bydd dinasyddion yn cael mynediad at wasanaethau yn y dyfodol.
- 16 Dywedodd y Cyngor wrthym fod defnyddio asedau at ddibenion gwahanol yn ystod y pandemig wedi arwain at newid mewn agweddau at y modd y gellid defnyddio asedau yn y dyfodol i roi cymorth i gyflawni ei flaenoriaethau. Ceir nifer o enghreifftiau o'r modd y mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio ei asedau i gyflawni ei flaenoriaethau ac er bod rhai o'r rhain wedi cael eu cyflymu gan y pandemig roedd eraill eisoes yn yr arfaeth, gan gynnwys:
- defnyddio lle sydd dros ben, am bod mwy o weithio ystwyth yn digwydd, yn swyddfeydd y Cyngor ym Mhenmorfa ar gyfer lleoliad byw â chymorth, hyfforddiant ac arddangos.
  - ailbwrpasu canolfannau hamdden yn Ganolfannau Llesiant, a fydd yn cynnig gwasanaethau pob oed amlddisgyblaethol, gyda'r gyntaf o'r rhain yn Llanbed.
  - buddsoddi mewn datrysiadau carbon isel ac asesiadau technoleg adnewyddadwy fel rhan o'i Gynlluniau Rheoli Carbon a Sero Net 2030.
  - y cynllun Tai Cymunedol newydd – defnyddio cynllun ecwiti a rennir a chynnig tir a berchnogir gan y Cyngor i roi cymorth i ddatblygu tai cymunedol a phrosiectau hunanadeiladu ar gyfer pobl ifanc leol. Mae hwn wedi'i fwriadu i unioni'r fantol o ran pobl ifanc yn ymfudo allan o Geredigion dros y tymor hwy.
  - cefnogi adfywiad canol trefi megis Llanbed, trwy gaffael unedau eiddo allweddol a'u hailbwrpasu ar gyfer defnydd masnachol a phreswyl.
  - trafodaethau cyfredol gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd ynglŷn ag opsiynau ar gyfer cyd-ddefnyddio eu hasedau yn ardal Aberystwyth.
- 17 Mae'r Cyngor yn ymwybodol o nifer o risgiau a allai effeithio ar ei allu i wireddu ei uchelgais yn y dyfodol o ran defnyddio'i asedau gan gynnwys:
- cost cynnal a chadw portffolio eiddo cyfredol y Cyngor. Fe wnaeth arolwg diweddaraf y Cyngor o gyflwr ei eiddo yn 2019, a oedd yn cwmpasu 30% o gyfanswm ei bortffolio asedau, nodi costau cynnal a chadw o fwy na £45 miliwn dros y deng mlynedd nesaf. Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn datblygu cynllun i ymateb i hyn.
  - yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar allu'r Cyngor i godi rhenti o'i bortffolio masnachol, o ystyried bod llawer o fusnesau wedi bod yn ei chael yn anodd talu rhent yn ystod y pandemig a'u bod bellach yn chwilio am ostyngiadau sylweddol yn eu rhent. Mae hyn wedi cael ei waethygu gan y cynnydd sylweddol mewn pobl sy'n siopa ar-lein. I fynd i'r afael â hyn, mae'r

Cyngor wedi bod yn buddsoddi mewn mesurau i annog ymwelwyr i ddechrau dychwelyd i drefi fel Aberystwyth.

- mae newid hinsawdd yn risg arwyddocaol i bortffolio Asedau'r Cyngor. Mae datganiad diweddar y Cyngor ei bod hi'n argyfwng ar yr hinsawdd, a'r ffaith bod Newid Hinsawdd wedi'i gynnwys yn ei Gofrestr Risgiau Corfforaethol, yn amlygu ei ymrwymiad i fynd i'r afael â'i heriau hirdymor o ran datgarboneiddio.

### **Mae gan y Cyngor drefniadau ar gyfer cynllunio, monitro a llywodraethu asedau, sy'n ystyried angen, a chyflenwad, hirdymor, ac yn cydnabod bod meysydd lle gellid cryfhau hyn**

- 18 Mae'r Cyngor wedi disgrifio'n glir beth yw ei ddull o ddefnyddio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy i roi cymorth i gyflawni ei flaenoriaethau ei hun a blaenoriaethau ei bartneriaid. Ceir nifer o enghreifftiau hefyd o achosion lle mae penderfyniadau ynglŷn â'i asedau'n ategu'r dull hwn ac mae cynlluniau mwy diweddar, megis y Cynllun Tai Cymunedol, yn dangos yn fwy eglur sut y mae'n defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i gyflawni deilliannau gwell o ran tai cymunedol. Fodd bynnag, byddai sicrhau ei fod yn defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i roi cymorth i gyflawni strategaethau a chynlluniau sydd â ffocws ar asedau yn y dyfodol yn cryfhau ei drefniadau rheoli asedau wrth symud ymlaen.
- 19 O ganlyniad i adolygiad o ddull y Cyngor o reoli ei asedau gan ei Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn 2020, fe wnaeth y Cyngor newidiadau i'r ffordd y mae'n monitro ac yn rheoli ei weithgarwch gwaredu a chaffael asedau. Ym mis Mawrth 2020, fe gymeradwyodd Bolisi Datblygu Asedau Corfforaethol Drafft. Mae'r polisi hwn yn nodi fframwaith llywodraethu wedi'i ddiweddarau ar gyfer asedau sy'n cynnwys Grŵp Datblygu a hwnnw'n cynnwys Uwch Aelodau a Swyddogion a'i is-weithgor, y Panel Datblygu Asedau.
- 20 Mae gan y Grŵp Datblygu hwn a'r panel cysylltiedig gyfrifoldeb am herio ac asesu newidiadau i asedau'r Cyngor, gan gynnwys datblygu, gwaredu, prydlesu, aildefnyddio a chaffaeliadau. Mae'r Grŵp Datblygu'n gwneud argymhellion ar gyfer caffael neu waredu i'r Cabinet a'r Cyngor ar gyfer penderfyniadau terfynol. Er bod gan y Grŵp Datblygu gyfrifoldeb am ddatblygu golwg strategol ar asedau, mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r elfen hon o'i gyfrifoldebau wedi'i hoptimeiddio'n llawn ac mae gwaith ar yr agwedd hon yn dal i ddatblygu.
- 21 Mae cam cychwynnol proses datblygu asedau'r Cyngor yn gwahodd datganiadau o ddi-ddordeb gan Swyddogion ac Aelodau ar gyfer defnydd amgen o asedau nad oes mo'u hangen mwyach. Mae'r dull hwn yn darparu fframwaith a ddylai barhau i sicrhau bod asedau'n cael eu hystyried gan y Cyngor mewn ffordd strategol ac integredig.
- 22 Er mai'r Grŵp Datblygu a'r Panel Datblygu Asedau yw'r prif ffyrdd y mae'r Cyngor yn rheoli ei asedau, mae ganddo hefyd nifer o fforymau a grwpiau eraill sy'n

cefnogi ei waith cynllunio, monitro a llywodraethu mewn perthynas â rheoli asedau, megis ei:

- Grŵp Monitro Cyfalaf – sy'n canolbwyntio ar gytuno a monitro'r cyllid mewn perthynas â rhaglen gyfalaf y Cyngor.
- Grŵp Ymgynghorol Trawsnewid ac Effeithlonrwydd Trawsbleidiol, sy'n hwyluso deialog gynnar ar gynlluniau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer prosiectau trawsnewid, gan gynnwys asedau ac yn cael adborth ar eu cynnydd.
- Grŵp Newid Hinsawdd – i ddatblygu camau gweithredu a'u rhoi ar waith ar gyfer uchelgeisiau Rheoli Carbon a Sero Net 2030.
- y Grŵp Rheoli Prosiectau Corfforaethol. Grŵp traws-wasanaethol sy'n canolbwyntio ar gyflawni prosiectau datblygu ar raddfa fawr yn llwyddiannus ac sy'n darparu asesiad cychwynol ar gyfer penderfyniadau arfaethedig ynglŷn â phrosiectau allweddol.
- ac eraill, gan gynnwys: y Byrddau Perfformiad Chwarterol, y Cabinet a'i bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

23 Mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau Eiddo Corfforaethol 2018 sy'n disgrifio'i ddull strategol o reoli asedau. Yn 2018-19 defnyddiodd y Cyngor Gynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau hefyd i roi cymorth i ddatblygu'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol. Er bod y pandemig wedi effeithio ar fwriad y Cyngor i ddiweddarau'r cynlluniau hyn, bydd diweddarau ei Gynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau a Chorfforaethol yn galluogi'r gwaith cynllunio asedau i roi adlewyrchiad gwell o'r dirwedd gyfredol, y weledigaeth strategol ar gyfer asedau yn y dyfodol ac i'r rhain gael eu hintegreiddio â'i broses cynllunio busnes flynyddol.

24 Cyfrifoldeb Gwasanaeth Economi ac Adfywio'r Cyngor yw cydlynu a rheoli asedau ac ystadau. Fodd bynnag, er bod cynllunio ar gyfer asedau wedi'i osod o fewn fframwaith strategol, fe'i hysgogir gan broses lle mae gwasanaethau unigol yn nodi sut y gellid gwaredu neu gaffael asedau cyfredol i roi cymorth i ddarparu gwasanaethau ac, yn y pen draw, i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol.

25 Wrth gynllunio ar gyfer ei asedau ceir nifer o enghreifftiau cadarnhaol lle mae'r Cyngor yn defnyddio'i ddadansoddiad o'r angen, a chyflwr ei asedau i helpu i drefnu ei benderfyniadau ynglŷn â'u defnyddio, megis:

- defnyddio'i ddealltwriaeth am gyflwr ei ganolfannau hamdden i ategu'r achos busnes i'w hailbwrpasu'n Ganolfannau Llesiant.
- cynnal asesiad manwl o anghenion i bennu lleoliad y ganolfan Llesiant gyntaf yn Llanbed.
- comisiynu'r arolwg o gyflwr eiddo yn 2019, a oedd yn cwmpasu oddeutu 30% o'r asedau corfforaethol. Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn datblygu strategaeth ddeng mlynedd i ystyried sut y gall canlyniadau'r arolwg o gyflwr a gwblhawyd gan Faithful & Gould gael eu rheoli'n effeithiol a sut y gall hyn effeithio ar y portffolio asedau dros y tymor hwy.
- gwneud gwaith manwl i ddadansoddi'r angen fel rhan o'r Model Pob Oed a Llesiant, gyda hynny'n arwain at fwy o ystyriaeth i ddarparu gwasanaethau'n lleol trwy asedau cymunedol.

- 26 I ategu proses benderfynu'r Cyngor mae wedi datblygu Asesiad Effaith Integredig. Mae'r asesiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl benderfyniadau a pholisïau allweddol gael eu hystyried yng ngoleuni eu heffaith ar rwymedigaethau statudol allweddol y Cyngor megis: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb.
- 27 Er bod cryn dipyn o waith cynllunio'r Cyngor yn cyd-fynd â chylchoedd etholiadau llywodraeth leol neu ymrwymïadau cyllid allanol, mae llawer o'r mentrau sydd wedi'u cynnwys yn y cynlluniau hyn yn canolbwyntio ar gyflawni newid dros orwel amser hwy o lawer. Fodd bynnag, ceir nifer o enghreifftiau hefyd lle mae'r Cyngor yn ystyried risgiau hirdymor ac yn cynllunio ar gyfer cyfleoedd o ran ei ddefnydd o asedau i ategu ei flaenoriaethau. Mae rhai enghreifftiau o hyn yn cynnwys:
- y mentrau dadansoddi risg a seiliedig-ar-asedau sy'n tanatgu Hybu Economi Ceredigion – Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-2035;
  - yr amryw brosiectau ynni adnewyddadwy, sy'n lleihau carbon a nodir yn ei Gynllun Rheoli Carbon 2018-2029 a'i Gynllun Sero Net erbyn 2030; a
  - datblygu canolfannau hamdden yn Ganolfannau Llesiant i ganolbwyntio adnoddau ar ymyrryd yn gynnar ac atal i wella llesiant dros y tymor hwy.

### **Bydd sefydlogrwydd ariannol y Cyngor a'i allu i ddenu cyllid yn rheolaidd yn parhau i gefnogi ei uchelgeisiau ar gyfer ei asedau, ac mae'n ymwybodol bod costau cynnal a chadw ei asedau a diffygion rhagamcanol yn y gyllideb yn dal i fod yn risgiau allweddol**

- 28 Fel a grybwyllwyd yn flaenorol, mae arolwg cyflwr y Cyngor yn 2019, a gynhaliwyd ar draws oddeutu 30% o bortffolio asedau'r Cyngor, wedi nodi bron i £45 miliwn o gostau cynnal a chadw dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae'r gofyniad sylweddol hwn o ran costau a chyflwr anhysbys y portffolio sy'n weddill yn risg ariannol barhaus. I reoli'r risg hon, mae'r Cyngor yn datblygu cynllun gweithredu deng mlynedd a fydd yn adnabod opsiynau ar gyfer y portffolio asedau yn y dyfodol.
- 29 Mae ein hadroddiad diweddar ni, Archwilio Cymru, ar Gynaliadwyedd Ariannol<sup>1</sup> (Mehafin 2021) yn amlygu, ar y cyfan, fel a ganlyn – 'Mae'r Cyngor yn dal i fod yn sefydlog yn ariannol ac yn canolbwyntio ar heriau yn y dyfodol ac mae gan y Cyngor hanes da o gwrdd â'i gyllideb flynyddol ar y cyfan er bod gorwariannau sylweddol o hyd ym maes Gofal Cymdeithasol. Mae gan y Cyngor hanes da o gyrraedd targedau arbedion; fodd bynnag, bydd cyflawni'r arbedion gofynnol yn fwy o her yn y dyfodol yn benodol mewn perthynas â'r arbedion ym maes gofal cymdeithasol'.

---

<sup>1</sup> Archwilio Cymru, [Cyngor Sir Ceredigion - Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol](#), Mehafin 2021



- 30 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig diweddaraf y Cyngor 2021-2025 yn amlygu ei bod yn ofynnol i'r Cyngor arbed o leiaf £15 miliwn erbyn mis Mawrth 2025 er ei fod hefyd yn nodi nad oes unrhyw arbedion yn ofynnol ar gyfer 2022-23.
- 31 Mae Strategaeth Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2021-2025 yn amlygu nifer o brosiectau â ffocws ar asedau gan gynnwys nifer o brosiectau arwyddocaol megis: Rhaglen (Band B) Ysgolion yr 21ain Ganrif; a phrosiect erydiad arfordirol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi dweud wrthym bod y buddsoddiad cyfalaf yn ei amddiffynfeydd arfordirol a'r gofyniad i gynnal a chadw ei saith cartref gofal yn dal i fod yn risgiau penodol i'w raglen gyfalaf yn y dyfodol.
- 32 Mae'r Cyngor hefyd wedi blaenoriaethu ei fuddsoddiad mewn nifer o gynlluniau datgarboneiddio gan gynnwys: gosod paneli ffotofoltäig ar asedau'r Cyngor; disodli goleuadau gwreiddiol â deuodau sy'n allyrru golau; a chyflwyno manau gwefru cerbydau trydan.
- 33 Mae gan y Cyngor hanes da o ddenu cyllid rhanbarthol a chenedlaethol, sydd wedi cefnogi ei flaenoriaethau mewn perthynas â defnyddio ei asedau gan gynnwys: cyllid gan Lywodraeth Cymru i drawsnewid Canolfan Hamdden Llanbed yn Ganolfan Llesiant gyntaf y sir; a chynigion llwyddiannus o Gronfa Adnewyddu Cymunedol a Chronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU. Yn ychwanegol at y rhain ceir y prosiectau posibl a fydd yn blaguro fel rhan o Gytundeb Tyfu Canolbarth Cymru.

## **Ceir nifer o enghreifftiau lle mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio neu'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid i wneud defnydd gwell o'i bortffolio asedau i roi cymorth i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a'i amcanion llesiant**

- 34 Mae'r Cyngor yn cyfranogi mewn nifer o bartneriaethau strategol i gefnogi ei ddull o reoli ei asedau, megis:
- y gwaith gyda Chyngor Powys ar yr uchelgais ar gyfer Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru mewn perthynas â'r economi, sgiliau/dysgu ac ynni.
  - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, ar brosiectau fel datgarboneiddio ardal Aberystwyth.
  - Cydbwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar ac sydd â chyfrifoldebau rhanbarthol am drafnidiaeth, cynllunio datblygu a datblygu economaidd.
  - trafodaethau arfaethedig gyda phartneriaid megis Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Iechyd, gwasanaethau eraill y Cyngor, cymdeithasau tai a'r Brifysgol, i ddeall eu hanghenion o ran asedau ac i fwrw golwg ar ailwrpasu asedau ar draws teulu'r sector cyhoeddus.
- 35 Yn ychwanegol at y partneriaethau strategol hyn, mae'r Cyngor yn rhan o nifer o fentrau cydweithio a gweithgareddau partneru eraill i ategu ei benderfyniadau ynglŷn ag asedau, sy'n amrywio o Aelodaeth o grwpiau rhannu arfer gorau a data sy'n gysylltiedig ag asedau i fentrau penodol megis gweithio gyda'r Heddlu a'r

trydydd sector i ddatblygu'r Ganolfan Llesiant yn Llanbed. Wrth i'r Cyngor barhau i ddatblygu ei ddull o gydweithio mewn perthynas â'i asedau, bydd ganddo gyfleoedd pellach i ddefnyddio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd hyn a'r manteision y gallai eu cael ohonynt.

## **Mae'r Cyngor wedi defnyddio gwybodaeth feincnodi a gwersi sydd ar gael mewn perthynas ag asedau i ategu penderfyniadau ynglŷn ag asedau penodol ac mae'n cydnabod bod angen iddo gryfhau'r meysydd hyn ymhellach**

- 36 Mae Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2020-21 (Adolygiad Blynyddol o Berfformiad a'r Amcanion Llesiant) yn cyfeirio at y ffaith, oherwydd pandemig COVID-19, bod y broses o adrodd ar y Mesurau Atebolrwydd Perfformiad wedi cael ei hatal, ar gyfer yr holl gynghorau, ar gyfer y flwyddyn 2020-21. Hefyd, ychydig iawn o Fesurau Atebolrwydd Perfformiad yr adroddwyd arnynt mewn blynyddoedd blaenorol.
- 37 Fodd bynnag, ceir enghreifftiau o feincnodi gan y Cyngor a hynny i ategu strategaethau a phrosiectau penodol. Er enghraifft, roedd y rhesymeg ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig ym menter Cynllun Tai Cymunedol y Cyngor yn seiliedig ar gymysgedd o ddata meincnodi cenedlaethol a lleol megis – fforddiadwyedd tai ac enillion cyfartalog, ymhlith metrigau eraill.
- 38 Nid yw'r Cyngor yn cofnodi data am berfformiad yn ei feddalwedd Asset Manager mwyach gan nad yw Consortiwm yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru'n gofyn am hy mwyach. Fodd bynnag, byddai defnydd mwy rheolaidd o ddata meincnodi i ategu datblygiad ei Gynlluniau Rheoli Asedau Corfforaethol a Gwasanaethau'n helpu i gryfhau ei drefniadau cynllunio busnes a hunanasesu.
- 39 Mae rhai o'r enghreifftiau o achosion lle mae'r Cyngor wedi defnyddio gwerthuso a dysgu i helpu i drefnu ei ddull o ran sut i ddefnyddio'i asedau'n cynnwys:
- fe ymgynghorwyd yn helaeth â staff ynghylch datblygu ei Strategaeth Gweithio Hybrid Ddrafft, a fydd yn cael effaith arwyddocaol ar ddefnyddio swyddfeydd y Cyngor yn y dyfodol, ac mae'r gwersi hyn yn trefnu datblygiad y dull sy'n esblygu.
  - mae Hybu Economi Ceredigion – Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-2035 wedi cael ei datblygu trwy ymgynghori manwl, lle mae canlyniadau'r gwersi hyn a ddysgwyd wedi cael eu defnyddio i adnabod blaenoriaethau a threfnu'r strategaeth.
  - yr ymgynghoriad ynghylch ei Barthau Diogel o ran COVID mewn nifer o drefi allweddol a'r asesiad Defnyddio Lle ar gyfer promenâd Aberystwyth. Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym bod y ddau bellach yn helpu i drefnu'r defnydd o le yng nghanol ei drefi yn y dyfodol.
  - fe arweiniodd y gwaith a wnaed gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol y Cyngor i ystyried sut yr oedd asedau'n cael eu caffael a'u

## Tudalen 99

gwaredu ar draws y Cyngor at ddull wedi'i ddiweddarau o reoli asedau ac at sefydlu Panel Datblygu Asedau'r Cyngor.



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

## Atodiad 4

### **Y Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer y Grŵp Datblygu, y Grŵp Monitro Cyfalaf, y Grŵp Rheoli Prosiectau Corfforaethol a'r Grŵp Rheoli Asedau.**

#### **Y Grŵp Datblygu**

##### Aelodaeth

Bydd y Grŵp Datblygu yn cael ei gadeirio gan Arweinydd y Cyngor ac yn cynnwys grŵp trawsbleidiol o aelodau (5 aelod i gyd) a'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Strategol a chynrychiolwyr o'r meysydd gwasanaeth.

##### Prif Gylch Gorchwyl y Grŵp Datblygu

1. Datblygu Cynllun Datblygu i'r Cyngor sy'n cynnig sail strategol ar gyfer cyflawni rhaglenni datblygu allweddol a fydd yn hybu Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor a'i flaenoriaethau o ran gwella.
2. Datblygu Rhaglen Gyfalaf tymor byr a thymor canolig, sy'n cefnogi rhaglenni datblygu i hybu'r economi, i gynnal a gwella asedau, i foderneiddio ysgolion, i ddarparu cyfleusterau gofal, iechyd a hamdden priodol, i gefnogi'r ddarpariaeth tai, i ddarparu gwell seilwaith, i ymateb i newid hinsawdd ac anghenion amgylcheddol.
3. Derbynn papurau gan wasanaethau ar newidiadau arfaethedig yng nghynlluniau'r rhaglenni cyfalaf a/neu ofynion newydd y cynlluniau. Nodi opsiynau ac argymhellion cyllido.
4. Ystyried rhaglenni a phrosiectau mawr newydd sy'n cyfrannu at gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol a strategaethau eraill.
5. Derbynn Adroddiad Monitro Rhaglenni Cyfalaf sy'n tynnu sylw at gynnydd, llithriant ac unrhyw newidiadau.
6. Meddu ar awdurdod dirprwyedig i reoli'n rhagweithiol Raglen Gyfalaf gymeradwy a fydd yn cwmpasu sawl blwyddyn, mewn achosion lle bydd hyn yn fwy na'r awdurdod dirprwyedig a roddwyd i'r Grŵp Monitro Cyfalaf ac yn is na'r trothwy ar gyfer penderfyniadau gan y Cabinet.

##### Amllder y Cyfarfodydd a'r Agendâu

Bydd y Grŵp Datblygu yn cyfarfod bob mis.

##### Gwneud Penderfyniadau

Yn gyffredinol, argymhell yn unig, ar wahân i reoli cyllidebau presennol o fewn y Rhaglen Gyfalaf, o fewn ffiniau penodol. Cyflwynir adroddiadau i'r Cabinet ar gyfer penderfyniadau.

## **Y Grŵp Monitro Cyfalaf**

### Aelodaeth

Bydd y Grŵp Monitro Cyfalaf yn cael ei gadeirio gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Cyllid a bydd swyddogion o sawl maes gwasanaeth yn mynychu.

### Prif Gylch Gorchwyl y Grŵp Monitro Cyfalaf

1. Monitro cynnydd y cynlluniau cyfalaf yn Rhaglen Gyfalaf y Cyngor i sicrhau y cyflwynir adroddiadau yn gywir a chyfredol i'r Cabinet.
2. Monitro elfen ariannu Rhaglen Gyfalaf y Cyngor.
3. Derbyn gwybodaeth gan wasanaethau a fyddai'n golygu bod angen diwygio Rhaglen Gyfalaf y Cyngor er mwyn ystyried cynlluniau newydd sydd ddim angen cyllid corfforaethol y Cyngor e.e. arian grant a dderbynnir a/neu gyfraniadau refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf.
4. Sicrhau bod prosiectau cyfalaf a gyflwynir ac sy'n cael eu cymeradwyo drwy'r Panel Rheoli Prosiectau Corfforaethol yn cael eu hystyried yn y Rhaglen Gyfalaf.
5. Meddu ar awdurdod dirprwyedig i reoli'n rhagweithiol y Rhaglen Gyfalaf gymeradwy a fydd yn cwmpasu sawl blwyddyn (e.e. dyrannu cyllid hyd at lefel benodol, rheoli llithriant rhwng blynyddoedd ariannol o fewn ffiniau penodol).

### Amllder y Cyfarfodydd a'r Agendâu

Bydd y Grŵp Monitro Cyfalaf yn cyfarfod bob dau fis fel rheol, yn ôl anghenion y gwaith (e.e. gellir cyfarfod yn fisol ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn).

### Gwneud Penderfyniadau

Rheoli'r cyllidebau presennol o fewn y Rhaglen Gyfalaf, o fewn ffiniau penodol. Cyflwynir adroddiadau i'r Grŵp Datblygu a'r Cabinet.

## **Y Grŵp Datblygu Asedau**

### Aelodaeth

Bydd y Grŵp Monitro Asedau yn cael ei gadeirio gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Economi ac Adfywio a bydd swyddogion o sawl maes gwasanaeth yn mynychu.

### Cylch Gorchwyl

## Tudalen 103

1. Paratoi Cynllun Datblygu Asedau blynyddol i'w ystyried gan y Grŵp Datblygu.
2. Ystyried cyfleoedd datblygu a pharatoi achosion busnes ar gyfer ailddatblygu tir neu adeiladau'r Cyngor sy'n wag neu a danddefnyddir, er mwyn i'r Grŵp Datblygu eu hystyried.
3. Ystyried a pharatoi adroddiadau ar gyfer y Grŵp Datblygu ynghylch gwerthu asedau nad oes mo'u hangen mwyach, lle nad oes fawr o achos busnes i ailddatblygu, aildddefnyddio neu gadw tir neu adeiladau sy'n wag neu a danddefnyddir.
4. Paratoi adroddiadau sy'n ystyried opsiynau i wneud y mwyaf o fannau (e.e. trwyddedau palmentydd, prydlesu gofod, eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau) ac adrodd i'r Grŵp Datblygu.
5. Paratoi adroddiadau sy'n nodi'r opsiynau ar gyfer cryfhau portffolio'r Cyngor drwy gaffael, ac adrodd i'r Grŵp Datblygu.

### Amllder y Cyfarfodydd a'r Agendâu

Bydd y Grŵp Datblygu Asedau yn cyfarfod unwaith y mis.

### Gwneud Penderfyniadau

Argymhellion yn unig. Adroddir papurau i'r Grŵp Datblygu er mwyn eu trafod, a lle bo'n briodol fe'u hadroddir i'r Cabinet.

## **Y Grŵp Rheoli Prosiectau Corfforaethol**

### Aelodaeth

Bydd y Grŵp Monitro Asedau yn cael ei gadeirio gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Economi ac Adfywio (neu Swyddog Arweiniol Corfforaethol arall) a bydd swyddogion o sawl maes gwasanaeth yn mynychu.

### Cylch Gorchwyl

1. Rhoi cymorth ac arweiniad i wasanaethau ar drefniadau da o ran rheoli prosiectau gan gynnwys cyngor ar gyllid a chaffael, y gyfraith a llywodraethu, adnoddau dynol, iechyd a diogelwch, TGCh, archwilio, a chyfathrebu.

### Amllder y Cyfarfodydd

Bydd y Grŵp Rheoli Prosiectau Corfforaethol yn cyfarfod bob pythefnos.

### Gwneud Penderfyniadau

Argymhellion yn unig. Bydd noddwyr y rhaglenni a'r prosiectau yn adrodd i'r Grŵp Datblygu a'r Cabinet, fel sy'n briodol.


### Adrodd

## Tudalen 104

Mae Atodiad 1 yn dangos siart lif o'r rhyng-ddibyniaeth rhwng y grwpiau a'r llinellau adrodd i'r Grŵp Arweiniol a'r Cabinet, Craffu a'r Cyngor.



Atodiad 1 Siart lif



Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	<b>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>19<sup>eg</sup> Rhagfyr 2022</b>
<b>LLEOLIAD:</b>	<b>Siambr y Cyngor, Penmorfa</b>
<b>TEITL:</b>	<b>Siarter Cwsmeriaid</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	<b>Adolygu ac argymell y Siarter Cwsmeriaid diwygiedig</b>
<b>Y RHESWM Y MAE CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:</b>	<b>Adolygu a diweddarau'r Siarter Cwsmeriaid presennol</b>

Mae'r Siarter yn nodi'r dulliau gwahanol o gyfathrebu â'r Cyngor - dros y ffôn, yn electronig (Y We, E-bost), drwy lythyr a wyneb yn wyneb. Mae'r siarter yn rhoi rhyw syniad i gwsmeriaid ynghylch pryd y dylent ddisgwyl ymateb a sicrhau y cyfathrebir â chwsmeriaid yn yr iaith a'r dull o'u dewis. Mae'r Siarter yn rhoi sicrwydd i gwsmeriaid y bydd y Cyngor yn delio â phawb yn gyfartal, mewn modd teg a chwrtais ac y bydd dinasyddion yn cael gwybodaeth am ei wasanaethau a digwyddiadau. Mae'r Siarter yn croesawu sylwadau cadarnhaol a negyddol am wasanaethau'r Cyngor a sut y gellir gwella.

Mae'r siarter diwygiedig yn awr yn cyd-fynd â'r polisi Cwynion o ran y nifer o ddyddiau i ymateb i unrhyw ymholiad.

**A gwblhawyd Asesiad Effaith NA - diweddarau'r siarter Integredig? Os na, nodwch pam** presennol yn cael effaith gyfyngedig ar y cyhoedd

**LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:**

**Crynodeb:**  
**Hirdymor:**  
**Integreiddio:**  
**Cydweithio:**  
**Cynnwys:**  
**Atal:**

**ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:**

Ymgynghori ag aelodau'r Pwyllgor Craffu i bennu a yw'r targedau a'r nodau a bennir yn y siarter yn dderbyniol, a'i diwygio'n unol â hynny.

## **RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:**

Cytuno ar fersiwn derfynol y gellir argymell bod y Cabinet yn ei chymeradwyo.

<b>Enw Cyswllt:</b>	Arwyn Morris
<b>Teitl:</b>	Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid
<b>Dyddiad yr Adroddiad:</b>	19 <sup>eg</sup> Rhagfyr 2022
<b>Acronymau:</b>	



## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

### Siarter Cwsmeriaid

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu amrywiaeth helaeth o wasanaethau a'i nod yw darparu gwasanaethau sy'n briodol i anghenion y Cwsmer, a hynny mewn ffordd gyfleus a chwrtais.

#### Ymateb i Alwadau Ffôn

- Rydym yn disgwyl i ddefnyddwyr gwasanaethau cysylltu â'r cyngor drwy'r ganolfan gyswllt gorfforaethol ac, wrth wneud hynny, gallwch ddisgwyl i'ch galwad gael ei hateb yn brydlon.
- Eir ati ar unwaith i ymdrin ag ymholiadau a cheisiadau syml am wasanaeth. Efallai y bydd yn rhaid inni eich trosglwyddo i arbenigwr neu gymryd neges os yw eich ymholiad yn un cymhleth neu os oes angen mwy o wybodaeth.
- Byddwn yn ateb pob galwad yn ddwyieithog, a bydd Swyddogion sy'n siarad Cymraeg a Saesneg ar gael drwy'r amser. Bydd pob sgwrs yn parhau yn yr iaith a ffeirir gan yr ymholwr.

Dylid nodi y caiff pob galwad i'r Ganolfan Gyswllt Gorfforaethol ei recordio at ddibenion monitro a hyfforddiant yn unig.

#### Ymateb i Lythyrau, E-byst a Cheisiadau am Wasanaeth ar y We a Chyfringau Cymdeithasol

- Pan fyddwch chi'n ysgrifennu i'r Cyngor, byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn y cais o fewn dau ddiwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr (anfonir cydnabyddiaeth awtomatig i ohebiaeth ddigidol), ac yn ymateb yn yr un iaith a'r un cyfrwng â'r ohebiaeth wreiddiol cyn gynted â phosibl ond ymhen 14 niwrnod gwaith ar ôl derbyn eich cais.
- Pan fydd angen ymateb mwy cyflawn a chymhleth, yna byddwn yn anfon llythyr neu e-bost yn nodi pryd y byddwn yn darparu ymateb llawn. Rydym yn annog cwsmeriaid i gyflwyno ymholiadau drwy ffurflen y we sydd ar gael ar wefan y cyngor <http://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/cysylltwch-a-ni/>. Anfonir ymateb awtomatig dwyieithog drwy e-bost at ddefnyddwyr gwasanaethau i gydnabod derbyn yr ymholiad. Mae ein llyfrgelloedd yn darparu mynediad Wi-Fi am ddim i'r rhyngwyd a chyfrifiaduron mynediad cyhoeddus os oes angen cymorth ychwanegol o ran gwasanaethau digidol ar ddefnyddiwr gwasanaethau.
- Er mwyn gwella effeithlonrwydd, mae'r Cyngor yn hybu cyfathrebu drwy ei wasanaethau digidol, lle'n bosibl. Bydd hyn yn sicrhau bod y wybodaeth sydd gennym yn gywir a chyfredol.
- Lle'n bosibl, caiff unrhyw geisiadau a dderbynnir drwy dudalennau Cyfringau Cymdeithasol y Cyngor eu hailgyfeirio i'r Ganolfan Cyswllt Corfforaethol a fydd yn cymryd y camau priodol i ymdrin â'r ymholiad. Defnyddir tudalennau

Cyfyngau Cymdeithasol y Cyngor i rannu gwybodaeth yn unig AC NID i ymateb i geisiadau am wasanaeth.

## Ymateb i Ymweliadau Personol (Wyneb yn Wyneb)

- Dim ond mewn adeiladau dynodedig y caniateir ymweliadau wyneb yn wyneb a gwneir pob ymdrech i gynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau gyda'u ymholiadau.
- Os bydd gennych ymholiad cymhleth neu arbenigol, efallai y gofynnir i chi wneud apwyntiad. Byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosib os bydd yn rhaid newid apwyntiad neu ei ganslo.
- Byddwn yn ymdrin â'ch ymholiad yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl eich dewis iaith.
- Caiff oriau agor, manylion darpariaeth frys y tu allan i oriau a'r holl rifau ffôn perthnasol eu nodi ar Wefan y Cyngor:  
<http://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/cysylltwch-a-ni/>
- Pan fyddwn yn ymweld â chi, byddwn yn dangos prawf adnabod swyddogol cyn dod i mewn i'ch cartref neu eich busnes, a byddwn yn gwneud apwyntiad ymlaen llaw.
- Pan fyddwch chi'n ymweld ag adeiladau'r Cyngor gallwch ddisgwyl amgylchedd croesawgar yno. Byddwn yn gwrtais ac yn foesgar ac yn sicrhau ein bod yn trin pawb yn gyfartal.

## Ymateb i Ymholiadau

- Bydd y Cyngor yn darparu gwasanaethau yn y dull mwyaf effeithlon i'r cwsmer.
- Rydym yn cydnabod bod modd cwblhau unrhyw drafodion yn sydyn, yn syml a didrfferth ar-lein neu drwy'r Ganolfan Gyswilt Gorfforaethol ac felly rydym wedi ymrwymo i wneud hyn yn bosibl ar gyfer pob un o'n gwasanaethau.
- Rydym yn cydnabod efallai y bydd arnoch angen trafod materion mwy cymhleth wyneb yn wyneb, a byddwn yn trefnu apwyntiad â'r swyddog mwyaf priodol ar gyfer hynny. Gwneir pob ymdrech i ddarparu ar gyfer y cais hwn yn brydlon.

## Safonau Cyfathrebu

- Caiff pob gohebiaeth mewn perthynas ag ymholiad ei hysgrifennu mewn iaith syml ac yn yr un iaith â'r ymholiad gwreiddiol.
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor o ddefnyddio ffont safonol yn ei holl ohebiaeth, sef Arial, maint 12 o leiaf.
- Fodd bynnag, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'n ddyletswydd gyfreithiol a moesol ar y Cyngor i ddarparu unrhyw rai o'i ddogfennau, taflenni, adnoddau electronig ac ati mewn fformatau gwahanol os bydd defnyddiwr gwasanaeth yn gofyn am hynny. Mae fformatau gwahanol yn cynnwys darparu dogfennau mewn print bras, mewn braille, ar ffurf sain, yn hawdd eu darllen neu wedi'u haddasu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.
- Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru; mae hyn yn golygu na ellir trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny. Yn unol â'r ddeddfwriaeth, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi gosod ystod o Safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid

i'r Awdurdod eu bodloni er mwyn darparu gwasanaethau safonol yn y Gymraeg; sicrhau bod gan siaradwyr y Gymraeg fynediad i'w wasanaethau yn yr iaith a ffefrir ganddynt.

- Pan fyddwch chi'n cysylltu â'r Cyngor rydym yn addo gwrandio arnoch. Os bydd y mater yn cymryd yn hirach na'r disgwyl i'w ddatrys, byddwn yn rhoi gwybod i chi ac yn egluro'r rheswm am hynny.

## Gwybodaeth a Bod yn Agored

- Rydym yn gwneud ein gorau i adael ichi wybod am ein gwasanaethau, digwyddiadau o bwys ac unrhyw newidiadau a fedrai gael effaith arnoch chi. Gwneir hyn yn bennaf drwy wefan y Cyngor [www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk) a'r cyfryngau cymdeithasol. Cyhoeddir pob dogfen yn ddwyieithog, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod.

## Cyfle Cyfartal

- Mae Cynllun Cydraddoldeb Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod fod gan bobl wahanol anghenion, gofynion ac amcanion. Mae'r polisi yn nodi sut fydd y Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i atal gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol bobl wrth gyflawni ei waith. Rhoddir sylw i gydraddoldeb wrth lunio polisïau a chynllunio gwasanaethau, ac fe'u cedwir o dan adolygiad
- Yn unol â Safonau'r Gymraeg, Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn ymdrin â'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Cymraeg a Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cyngor a rhoddir iddynt yr un statws a gwerth yng ngweinyddiaeth y Cyngor a'i waith.

## Mae'r Awdurdod yn croesawu sylwadau cadarnhaol a negyddol am ei wasanaethau

- Os ydych chi'n anfodlon ar unrhyw wasanaeth yr ydych wedi'i dderbyn gan y Cyngor, neu os hoffech sôn wrthym am rywbeth yr ydym wedi'i wneud yn dda, hoffem gael gwybod. Mae gan y Cyngor bolisi pendant a chyson iawn o ran cwynion a chanmoliaeth, ac mae hwn ar gael ar wefan y Cyngor: <http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/sylwadau-canmoliaeth-a-chwynion/>
- Ymdrinir â phob cŵyn yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol a gellir cael mwy o gyngor gan y gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth.

## Cysylltwch â ni

Mae'r Canolfannau Gwasanaeth Cwsmeriaid (yn Aberystwyth, Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul ac Aberteifi) ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener

Rhifau ffôn y Canolfannau Cyswllt

Ymholiadau Cyffredinol

01545 570881

Ymholiadau drwy E-bost

[clic@ceredigion.gov.uk](mailto:clic@ceredigion.gov.uk)

Ewch i [www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk) lle gallwch ddod o hyd i amrywiaeth helaeth o wasanaethau yr ydym yn eu darparu ar-lein.

DRAFT



## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

**DYDDIAD:** 19 Rhagfyr 2022

**LLEOLIAD:** Hybrid/Zoom

**TEITL:** Blaenraglen Waith Ddrafft 2022/2023

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor

### Y RHESWM PAM FOD

**CRAFFU WEDI GOFYN AM** Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i  
**Y WYBODAETH HON:** diweddarau ymhob cyfarfod

### CEFNDIR:

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwyllo gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol. Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny. Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau. Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau

- Bod yn ‘gyfaill beirniadol’, drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy’n penderfynu’n destun ‘rhwystrau a gwrthbwysau’, gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau’r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau’r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy’n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o’r radd flaenaf i’w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau’r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymhell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda’r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â’r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

## **Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

### **Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

### **Dewis pynciau**

Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

### **ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Adolygu a diweddarau'r Blaenraglen Waith bresennol.

<b>Enw Cyswllt:</b>	Dwynwen Jones
<b>Dynodiad:</b>	Swyddog Trosolwg a Chraffu
<b>Dyddiad yr Adroddiad:</b>	12.12.2022
<b>Acronymau:</b>	BW- Blaenraglen Waith FWP- Forward Work Programme

Pwyllgor	Eitem (disgrifiad/teitl)	Siaradwyr Gwadd	Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion
<b>Adnoddau Corfforaethol</b>			
21 Mehefin 2022	Fel yr ymddengys ar yr agenda		
3 Hydref 2022	<p>A.M. Diweddariad Ffermydd y Sir</p> <p>Adroddiad ar adeiladau gwag</p> <p>P.M. Adroddiad Blynyddol Canmoliaethau, Cwynion a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2021/2022</p> <p>Polisi Ymgysylltu – Siarad, Gwranddo a Gweithio gyda'n Gilydd</p> <p>Strategaeth mynd l'r afael a chaledi 2020-2023</p> <p>Siarter Troseddau Casineb – Cymorth I Dioddefwyr</p>		
19 Rhagfyr 2022	<p>Adroddiad y Crwner 2022</p> <p>Adroddiad Grwp Datblygu ac erail</p> <p>Adroddiad ar prynu maes parcio yn Aberteifi am £600,000</p>	<p>Elin Prysor</p> <p>Russell Hughes-Pickering</p> <p>Russell Hughes-Pickering</p>	

	Siarter Gwasanaeth Cwsmeriaid diwygiedig	Arwyn Morris	
17 Chwefror 2023 1.30pm	Paratoi'r cyllideb		
13 Mawrth 2023	<p>Treth y Cyngor – ail dai – Diweddariad a monitro penderfyniad y Cyngor, 03 Mawrth 2022</p> <p>Diweddariad ar Asedau'r Cyngor</p> <p>Polisi cydbwysedd Bywyd a Gwaith</p> <p>Adroddiad diweddarau ar nifer y desgiau sydd wedi'u harchebu ym Mhenmorfa a Chanolfan Rheidol ar gyfer staff ers ei gyflwyno, ac a oedd digon o le yn ystod misoedd y gaeaf i ddarparu ar gyfer staff sy'n dymuno gweithio mewn swyddfa oherwydd y cynnydd mewn costau byw.</p>	<p>James Starbuck</p> <p>Jo Shaw</p> <p>Geraint Edwards</p> <p>I'w gadarnhau</p>	
Cyfarfodydd y dyfodol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddariad ar Clic</li> <li>• Diweddariad ar Trefi SMART</li> <li>• Diweddariad ar Cysylltedd Digidol</li> <li>• Cynnig Tai Cymunedol</li> <li>• Technegol Gwybodaeth – ar y gofrestr risg</li> </ul>		

--	--	--	--

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TROSOLWIG A CHRAFFU ADNODDAU  
CORFFORAETHOL**

**A gynhaliwyd ar ffurf hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,  
Aberaeron ac o bell drwy gynhadledd fideo ddydd Llun, 03 Hydref 2022**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Rhodri Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Euros Davies, Ifan Davies, Elaine Evans, Eryl Evans, Geraint Wyn Hughes, Hugh R M Hughes, Ceris Jones, Caryl Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor, Catrin M S Davies, Clive Davies a Matthew Vaux (Aelodau'r Cabinet) ynghyd â'r Cynghorwyr Wyn Evans a Gareth Lloyd

**Swyddogion yn bresennol:** Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio, Mr Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol – Twf a Menter, Mr Andrew Harries - Swyddog Ystadau, Mrs Joanna Shaw, Swyddog Datblygu Prosiectau a Chadwraeth, Mr Alun Williams – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi, Perfformiad, a Diogelu'r Cyhoedd, Mrs Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol – Partneriaethau a Pherfformiad, Ms Marie Neige-Hadfield, Rheolwr Corfforaethol Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth, Ms Kay Howells, Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol y Canolbarth a'r De Orllewin, Ms Cathryn Morgan, Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant, Mrs Dwynwen Jones - Swyddog Cymorth Craffu, Mrs Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democraidaidd a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd

(10:00am-12:30pm a 1:30pm- 2:55pm)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Endaf Edwards a Carl Worrall am na fedrent ddod i'r cyfarfod

**2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswilt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Datgelodd y Cynghorydd Caryl Roberts fuddiant personol o ran eitem 3 ar yr agenda.

Datgelodd y Cynghorydd Ifan Davies fuddiant personol o ran eitem 3 ar yr agenda.

Datgelodd y Cynghorydd Wyn Evans fuddiant personol o ran eitem 3 ar yr agenda.

### 3 **Diweddariad ar Ffermydd y Sir**

Ystyriwyd y diweddariad ar Ffermydd y Sir. Darparwyd y wybodaeth ganlynol:

- Cyflwyniad
- Ystâd Fferm y Cyngor Sir
- Casgliadau blaenorol
- Materion cyfredol yn ymwneud ag Ystâd Fferm y Cyngor
- Tenantiaethau yn y dyfodol

Adroddwyd bod y Rheoliadau Rheoli Llygredd newydd yn debygol o gyflwyno heriau pellach o ran hyfywedd strwythur Ffermydd y Sir. Roedd angen gwneud rhagor o waith i ddeall maint yr her. Mae'r papur hwn yn nodi'r cynnydd diweddaraf, opsiynau ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys rhwydwaith ffermydd y Cyngor i lywio'r drafodaeth a galluogi'r Pwyllgor Craffu i roi adborth yn y broses.

Yn dilyn trafodaeth a chwestiynau o'r llawr, cytunwyd y byddai grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu i ystyried materion penodol o fewn Ffermydd y Sir yn fanwl ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Bydd y Swyddog Cymorth Craffu yn anfon e-bost at holl Aelodau'r Pwyllgor yn gofyn a ydyn nhw'n dymuno bod yn aelod o'r grŵp hwnnw. Dylid hefyd ystyried amserlen i gwblhau'r gwaith hwn.

### 4 **Adroddiad ar Waith Datblygu Asedau/Eiddo Gwag**

Ystyriwyd yr adroddiad ar Ddatblygu Asedau/Eiddo Gwag. Cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol:-

- CEFNDIR: Cyd-destun Strategol a *Dull Gweithredu ac Adnoddau*
- Gwaith ers mis Mawrth 2020
- Galw
- Cynllun Gweithredu Eiddo Gwag
- Ffrydiau Gwaith yn y dyfodol – Prosiectau Strategol, Sicrhau Cydbwysedd Asedau, *Gwaredu / Datblygu Asedau, Asesu Blaenoriaethau.*

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD

(i) nodi'r adroddiad er gwybodaeth

(ii) Cadw'r Panel Asedau

(iii) y byddai adroddiad ynghylch prynu maes parcio Aberteifi yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Rhagfyr;

(iv) y byddai adroddiad cynnydd ar y gwaith wrth symud ymlaen ar asedau'r Cyngor yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol, ac

(v) ystyried asiant allanol i werthu Asedau'r Cyngor er mwyn cael mwy o gynulleidfa o brynwyr

### 5 **Adroddiad Blynyddol Canmoliaethau, Cwynion a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2021/2022**



Ystyriwyd yr Adroddiad Blynyddol am Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth (2021-2022). Cyflwynwyd yr adroddiad i roi trosolwg cynhwysfawr i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol o'r Sylwadau o Ganmoliaeth, y Cwynion a'r gweithgarwch Rhyddid Gwybodaeth (gan gynnwys Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) a dderbyniwyd gan yr Awdurdod yn ystod 2021 – 2022. Roedd yr adroddiad hwn hefyd yn darparu gwybodaeth am gwynion a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y cyfnod adrodd.

### CYTUNWYD

- (i) nodi a chymeradwyo cynnwys yr Adroddiad Blynyddol am Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a Gweithgarwch Rhyddid Gwybodaeth – 2021/2022 a nodi Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2021-2022; a
- (ii) bod mwy o fanylion yn Adran 4 ar y gwersi a ddysgwyd yn cael eu darparu yn yr adroddiad nesaf

## 6 **Siarter Troseddau Casineb ar Ddiodefwyr**

Ystyriwyd yr adroddiad ar Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddiodefwyr. Nodwyd bod Cymorth i Ddiodefwyr wedi datblygu Siarter Troseddau Casineb i sefydliadau lofnodi, er mwyn creu rhwydwaith o gynghreiriaid i gefnogi ei waith gyda diodefwyr ac i godi ymwybyddiaeth am droseddau casineb a'r ffyrdd o'u riportio ledled Cymru.

Mae troseddau casineb yn gallu cael effaith ddinistriol ar ddiodefwyr ac mae'r elusen wedi gweld cynnydd amlwg yn y galw am ei gwasanaethau cymorth ynghylch troseddau casineb - hyd at 70% o gynnydd yn ystod y pandemig. Gyrrwyd y cynnydd hwn yn bennaf gan achosion yn ymwneud â hil a homoffobia. Mewn ymateb i'r cynnydd hwn yn y galw lansiodd Cymorth i Ddiodefwyr y Siarter Troseddau Casineb sy'n ymrwymo sefydliadau i roi hawliau i ddiodefwyr â'u cefnogi i adnabod a riportio troseddau ac achosion sy'n ymwneud â chasineb.

Adroddwyd bod Cyngor Sir Ceredigion eisoes wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth am Droseddau Casineb a'r ffyrdd o'u riportio. Mae gwaith a wneir drwy'r tîm Cydlyniant Cymunedol a llawer o adrannau'r Cyngor yn ategu'r awydd i sicrhau nad yw troseddau casineb yn dderbyniol, bod pobl yn deall beth yw troseddau casineb a pha gamau y dylai diodefwyr, tystion a chymunedau eu cymryd pan fyddant yn digwydd. Bydd llofnodi'r Siarter Troseddau Casineb gan Gymorth i Ddiodefwyr yn atgyfnerthu'r gwaith da sydd eisoes ar waith gan yr awdurdod lleol ac yn cynnig fframwaith i sicrhau bod ymrwymiad llawn yn digwydd ar bob lefel o'r sefydliad. Ni ddylai neb yng Ngheredigion ddiodef rhagfarn neu drosedd casineb.

Mae sefydliadau sy'n mabwysiadu'r siarter yn ymrwymo i sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn cadw at addewidion y siarter pa bryd bynnag y dôn nhw i gysylltiad â phobl sydd wedi diodef trosedd casineb ac yn gweithio i adeiladu cymunedau cryf a chynhwysol. Hefyd bydd gofyn i sefydliadau gymryd camau allweddol ynghylch codi ymwybyddiaeth am Droseddau

Casineb. Nid yw'r rhain yn cael eu rhagnodi a gellir eu datblygu mewn ffordd priodol yn ôl anghenion y sefydliad a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Darparwyd enghreifftiau o'r gwaith y gall sefydliadau sy'n llofnodi'r Siarter ei wneud.

Dywedwyd mai'r camau nesaf pe bai Cyngor Sir Ceredigion yn dewis cefnogi'r Siarter oedd y byddai cyfarfod yn cael ei sefydlu gyda Chymorth i Ddiodefwyr i drafod y camau perthnasol. Mae rhai sefydliadau wedi canolbwyntio ar hyfforddi staff, rhai ar ledaenu gwybodaeth, eraill ar gymysgedd o'r ddau. Ar ôl dod yn bartner 'gweithredol' mae sefydliadau'n gallu defnyddio'r marc ymddiriedaeth ar eu gwefannau, deunyddiau hyrwyddo ac ati.

CYTUNWYD argymhell i'r Cabinet bod y Cyngor Sir yn ymrwymo i'r ymrwymadau a restrir yn Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddiodefwyr.

### **7 Strategaeth mynd i'r afael a chaledu**

Ystyriwyd yr adroddiad ynghylch y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi. Roedd yr adroddiad yn nodi'r camau a gymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion i ddarparu ymateb cydgysylltiedig i'r risg gynyddol o galedi yng Ngheredigion oherwydd effaith Covid-19. Cafodd y cynnydd a wnaed ei fonitro gan Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunwyd y byddai Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-22 yn cael ei hymestyn i 2023 i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â Chynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion sy'n dod i ben yn 2023.

Roedd tri amcan allweddol Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi Ceredigion fel a ganlyn:

- Dod i ddeall effaith esblygol COVID-19 ar galedi yng Ngheredigion drwy goladu a dadansoddi data ar y cyd ag asiantaethau partner.
- Cydlynu ac atgyfnerthu gwaith ar y cyd ag asiantaethau partner i hyrwyddo a manteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael.
- Nodi bylchau o ran y cymorth sydd ar gael ac o ran anghenion caledi wrth iddynt newid er mwyn llunio ymyriadau cynnar effeithiol a fydd yn sicrhau bod unigolion a chymunedau'n fwy cydnerth wrth inni ddygymod ag effaith COVID-19.
- Adroddir ynghylch y cynnydd a wneir o ran y strategaeth hon bob blwyddyn, gan fesur statws Coch, Ambr a Gwyrdd y camau gweithredu y mae Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrifol amdanynt. Mae'r cynllun gweithredu wedi'i rannu'n dair colofn ar wahân: Costau Byw Hanfodol, Llesiant Corfforol ac Emosiynol, a Chydnerthedd Cymunedol.

Rhoddwyd diweddariad ar y sefyllfa bresennol, y cynnydd ynghyd â chasgliadau a chanfyddiadau adroddiad y Cynllun Gweithredu ar gyfer Mynd i'r Afael â Chaledi; a nodwyd y camau nesaf:-

- Parhau i ddatblygu'r dangosfyrddau data i sicrhau bod gan y Cyngor ddealltwriaeth gyffredin o effaith esblygol caledi yng Ngheredigion.
- Adolygu'r rhestr o bartneriaid sy'n cyfrannu at y cynllun gweithredu.

- Rhagwelir y bydd lefelau tlodi yn parhau i godi yng Ngheredigion, a hynny oherwydd y costau byw cynyddol yn hytrach nag effaith uniongyrchol Covid. Mae'n debygol felly y bydd angen newid ffocws a chaiff y cynllun gweithredu ei adolygu i adlewyrchu hyn.
- Sicrhau bod gwaith yr is-grŵp hwn yn cyfrannu at Gynllun Llesiant Lleol 2023-28.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD nodi a chymeradwyo'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Mynd i'r Afael â Chaledi.

### **8 Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi - Siarad, Gwranddo a Gweithio gyda'n Gilydd**

Ystyriwyd 'Siarad, Gwranddo a Gweithio gyda'n Gilydd', sef polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Cyngor Sir Ceredigion, sy'n disgrifio ein dull corfforaethol o ymgysylltu ac ymwneud â phobl Ceredigion. Cafodd y polisi drafft blaenorol ei ystyried gan y Pwyllgor ar 14 Hydref 2021 lle cafodd ei gymeradwyo i ymgynghori'n gyhoeddus yn ei gylch dros y gaeaf yn ystod y flwyddyn honno. Fodd bynnag, gohiriwyd yr ymgynghoriad oherwydd gofynion Rhan 3, adran 41, o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 parthed ymgynghori ac adolygu Strategaeth y Cyngor ar gyfer Ymgysylltu â'r cyhoedd.

Cafodd y polisi Ymgysylltu drafft ei ddiwygio wedyn i gynnwys Cyfranogiad ac fe'i cyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2022. Cytunodd y Cabinet y dylai'r polisi Ymgysylltu a Chyfranogi drafft fynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus dros yr haf, 2022. Cafodd y polisi terfynol ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu canfyddiadau'r ymgynghoriad.

Ar ôl trafod ac ystyried y polisi, cytunodd Aelodau ar y canlynol ac maent yn awgrymu bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:

Derbyn a chymeradwyo'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi – Siarad, Gwranddo a Gweithio Gyda'n Gilydd.

### **9 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion.**

Cytunwyd cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn rhai cywir.

### **10 I ystyried Cynllun Gwaith y Dyfodol 2022/2023**

CYTUNWYD nodi cynnwys Blaenraglen Waith 2022/23 yn amodol ar y canlynol:-

- Bod adroddiad ar brynu maes parcio Aberteifi yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod mis Rhagfyr
- Bod adroddiad ar y premiwm treth ar ail gartrefi yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol

## Tudalen 124

- Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, bod cwestiynau penodol mewn perthynas â phryderon ynghylch gwasanaeth Clic yn cael eu casglu oddi wrth aelodau'r Pwyllgor er mwyn i'r swyddog allu mynd i'r afael â nhw yn y cyfarfod dilynol.
- Bod adroddiad yn cael ei ddarparu ynghylch y nifer o ddesgiau sydd wedi cael eu harchebu gan staff ym Mhenmorfa a Chanolfan Rheidol ers cyflwyno'r system, ac sy'n cadarnhau a oes digon o le yn ystod misoedd y gaeaf ar gyfer staff sy'n dymuno gweithio mewn swyddfa oherwydd y costau byw cynyddol.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 19 Rhagfyr 2022**

**Cadeirydd:** \_\_\_\_\_

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_